

Profiad Siaradwyr Cymraeg o'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal



Cyngor Gofal Cymru
Care Council for Wales

Hyder mewn Gofal - Confidence in Care



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad a baratowyd gan IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith ar gyfer yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru

2012

CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol	3
Y Cyd-destun a'r Nodau	8
Y Dulliau	10
Y Canfyddiadau	14
Y Casgliadau	60
Atodiadau	62

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r tîm ymchwil ddiolch i'r defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil am eu parodrwydd i rannu profiadau a phersbectif personol ynghyd â'u syniadau ar gyfer creu newid.

Diolch hefyd i gydweithwyr mewn asiantaethau a sefydliadau ledled Cymru am daenu'r gair ac am eu cymorth yn dwyn yr ymchwil i sylw defnyddwyr a sicrhau llais i'r sawl a fyddai wedi ei chael hi'n anodd cymryd rhan fel arall.

Crynodeb Gweithredol

1. Nod yr ymchwil yw hel gwybodaeth ynghyd a fydd yn help wrth lunio'r Fframwaith Strategol ar gyfer y Gymraeg yn y Gwasanaethau Iechyd a Gofal yng Nghymru, trwy archwilio profiadau, barn a phersbectif defnyddwyr y gwasanaethau iechyd a gofal ynghyd â'u gofalwyr. Rhoddir sylw i bedwar grŵp blaenoriaeth: plant; pobl hŷn; defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl a phobl ag anableddau dysgu.

2. Aeth yr ymchwil ati i hel tystiolaeth gan leiafswm o 40 ymatebydd, gan anelu at rif optimwm o 60 (hynny yw, lleiafswm o ddeg ymatebydd ymhob un o'r grwpiau blaenoriaeth, neu optimwm o 15). I sicrhau hynny, defnyddiwyd y cyfryngau lleol a chenedlaethol i sicrhau sylw eang i'r ymchwil a gwahoddiad i ymatebwyr gymryd rhan.

3. Derbyniwyd cyfanswm o 51 ymateb yn ystod y cyfnod o ganol mis Ionawr tan 31 Mawrth 2011:

plant	17
pobl hŷn	15
pobl â phroblemau iechyd meddwl	10
pobl ag anableddau dysgu	9

O blith y defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, roedd pedwar wedi derbyn diagnosis o dementia.

4. Derbyniwyd ymateb reit dda ar draws nifer o ardaloedd yng Nghymru, fel y gwelir yn Nhabl 2 (tudalen 11). Rhaid cydnabod y clwstwr amlwg o ymatebion a ddaeth o Geredigion a hynny o bosib yn adlewyrchu'r ffaith fod y tîm ymchwil wedi ei leoli yn lleol yn hytrach na'i fod yn awgrymu set benodol o faterion llosg.

5. Un o'r cyfyngiadau posib y mae'n rhaid ei gydnabod yw'r posibilrwydd fod y dulliau recriwtio wedi ffafrio'r ymatebwyr hynny a oedd wedi eu stigmatiddio leiaf gan eu hamgylchiadau. Ond, bu'r cymorth a gafwyd gan fudiadau defnyddwyr yn gyfrwng i sicrhau bod modd cynnwys ambell lais mwy ymylol a bregus.

6. Er mynd ati i wahodd ymatebion o bob math, rhai cadarnhaol a negyddol, roedd y mwyafrif yn cyfeirio at wendidau yn hytrach na chryfderau ac enghreifftiau o arfer da yn y gwasanaethau sydd ar gael.

7. Yn y bôn, roedd ymatebwyr yn cyfeirio at dair lefel o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: y lefel optimwm, â phob elfen o'r gwasanaeth yn cael ei darparu yn newis iaith y defnyddiwr; y lleiaf ffafriol, â gwasanaethau yn cael eu darparu yn Saesneg ac ychydig, os unrhyw gydnabyddiaeth o gwbl yn cael ei dangos at iaith y defnyddiwr. Mae defnyddwyr yn aml yn tynnu'n ôl ac yn peidio â defnyddio'r gwasanaethau hynny, yn teimlo eu bod nhw'n amhriodol ac yn aneffeithiol. Rhwng y ddwy lefel honno, ceir y model cyfaddawd â gweithwyr proffesiynol Saesneg eu hiaith yn cymryd camau ymarferol i gydnabod iaith y defnyddiwr. Mae'n ymddangos bod ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r math yma o sensitifrwydd iaith, neu'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio gan un ymatebydd yn 'wyleidd-dra proffesiynol.'

8. Mae sawl ymatebydd yn sôn am bwysigrwydd adnabod iaith y defnyddiwr o'r cychwyn cyntaf a defnyddio'r wybodaeth honno wedyn i siapio'r gwasanaeth sy'n dilyn. Maen nhw'n awgrymu mai ar y darparwr gwasanaeth y mae'r baich i ofyn y cwestiwn yn hytrach nag ar y defnyddiwr gwasanaeth i orfod adnabod yr angen. Dylai'r wybodaeth honno ddilyn y defnyddwyr wrth iddyn nhw symud drwy'r system a chael ei nodi'n glir ar bob pwynt cyfeirio newydd.

9. Mae unigolion mewn sawl rhan o Gymru yn cyfeirio at yr argraff fod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn fater o hap a damwain yn hytrach nag yn ffrwyth cynllunio clir. Yn ôl un ymatebydd, 'Mae'r arfer da, pan mae o'n digwydd,

yn digwydd yn organig.' Hynny yw, mae'n adlewyrchu natur y gweithlu lleol, dwyieithog yn hytrach na bod yn gynnyrch cynllunio ymwybodol.

10. Mae ymatebwyr yn cyfeirio at y ddolen gyswllt rhwng iaith a gofal ac yn sôn am enghreifftiau sy'n awgrymu bod ansawdd y gofal i ddefnyddwyr bregus weithiau'n cael ei gyfaddawdu oherwydd y methiant i gyfathrebu â nhw yn eu hiaith gyntaf. Mae'r dystiolaeth yngl n â gwasanaethau gofal yn y cartref a gofal preswyl i bobl h n yn awgrymu bod angen i drefniadau caffael, trwy gytundebau trydydd parti, roi sylw i ddarpariaeth sy'n briodol o safbwynt iaith

11. Ceir tystiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl sy'n dangos ei bod hi'n bwysig darparu gwasanaethau therapiwtig a seiciatryddol mewn ffordd sy'n addas yn ieithyddol. I nifer, mae defnyddio'r Saesneg i drafod eu bywyd mewnol, emosïynol yn ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw wneud y defnydd gorau o'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig.

12. Mae ymatebwyr ar draws y pedwar maes gwasanaeth yn sôn am yr amharodrwydd ymhlith gweithwyr iechyd a gofal i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn Gymraeg. Mae sawl ymatebydd yn awgrymu bod angen i gyflogwyr gydnabod a rhoi gwerth ar bob lefel o sgiliau iaith yn y gweithlu a datblygu systemau cefnogi i'w gwneud hi'n bosib i weithwyr ddatblygu a chryfhau eu sgiliau ymhellach.

13. Mae ymatebwyr yn cyfeirio at werth ymarferwyr iechyd a gofal dwyieithog yn rhan o'r tîm clinigol neu'r tîm gofal; dylid gwneud mwy, medden nhw, i gynllunio'n ymwybodol ar gyfer gwaith tîm dwyieithog yn y meysydd blaenoriaeth sy'n cael eu trafod yn yr ymchwil hwn.

14. Nid yw gwasanaethau meddygon teulu bob amser yn adlewyrchu proffil iaith y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu ganddynt. Awgryma ymatebwyr bod angen hoelio mwy o sylw ar sgiliau iaith adeg apwyntio; gall hynny gynnwys yr angen i drefnu hyfforddiant sgiliau iaith dwys a pherthnasol i'r swydd yn ogystal â

rhoi mwy o gefnogaeth i weithwyr gofal iechyd ar bob lefel fedru meithrin gwell ymwybyddiaeth o arwyddocâd defnydd iaith yn eu gwaith gyda chleifion.

15. Mae nifer cynyddol y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd trefol yng Nghymru yn peri her arbennig. Mae'r dystiolaeth gan rieni yn yr ardaloedd hynny yn tueddu i awgrymu eu bod nhw, ar y cyfan, yn fwy llafar a hyderus yn herio'r bylchau mewn gwasanaeth, ond mae peryg bod grwpiau eraill yn dioddef ddwywaith, ar y naill law yn ddefnyddwyr gwasanaeth bregus, sydd weithiau wedi eu hymylu, ac ar y llaw arall yn siaradwyr iaith leiafrifol, yn byw mewn cymunedau sy'n aml â niferoedd arwyddocaol ond canrannau isel o siaradwyr Cymraeg.

16. Rhoddir sylw i bwysigrwydd asesu mewn ffordd sy'n briodol yn ieithyddol, gan gyfeirio yn arbennig at wasanaethau dementia a gwasanaethau i blant – therapi iaith a lleferydd, profion golwg a chlyw, ac asesiadau gan ymwelwyr iechyd. Ceir enghreifftiau eraill hefyd sy'n dangos bod gan iaith swyddogaeth allweddol wrth ffurfio diagnosis. Mae sawl ymatebydd yn cwestiynau dilysrwydd yr asesiadau hynny sy'n digwydd trwy gyfrwng cyfieithu.

17. I nifer o ymatebwyr, mae defnyddio dewis iaith yn bwerus o safbwynt creu agosrwydd a ffurfio perthynas broffesiynol gynnes.

18. Mae ymatebwyr yn aml yn sôn am y profiad o gael gwybod nad oes modd iddyn nhw dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg, neu am yr oedi a'r disgwyl sy'n digwydd cyn derbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Ceir tystiolaeth am oedi o'r fath yng nghorff yr adroddiad.

19. Mae nifer o ddefnyddwyr a gofalwyr ymhob un o'r meysydd blaenoriaeth yn dweud mai ar sail galw yn hytrach nag angen y caiff gwasanaethau eu darparu yn Gymraeg. Mae hynny'n annhebygol o greu newid arwyddocaol yn y ddarpariaeth. Mae disgwyliadau isel y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg, siaradwyr

iaith leiafrifol sydd wedi ei hymylu yn draddodiadol, ynghyd ag amharodrwydd neu anallu unigolion sy'n aml heb bŵer i gwyno am wasanaethau iechyd a gofal, gyda'i gilydd yn ei gwneud hi'n anodd dros ben herio'n effeithiol y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig.

20. Mae ymatebwyr yn awgrymu nifer o newidiadau a gwelliannau posib. Mae'r rhain yn ymwneud â datblygu'r gweithlu, rhoi gwerth ar ddarpariaeth ddwyieithog ar lefel sefydliad ac unigolyn, a chynnwys yn rhan o'r systemau gweinyddol a phroffesiynol y dulliau angenrheidiol i adnabod anghenion iaith a gwneud defnydd deallus o'r data hynny. Yn fwy penodol, maen nhw'n argymhell yr angen am:

- i) Ymdrechion mwy egnïol i recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r sector iechyd a gofal.
- ii) Pwysigrwydd casglu data am ddefnydd a dewis iaith adeg y cyfeiriad cyntaf a defnyddio hynny i lywio'r hyn sy'n dilyn.
- iii) Yr angen i adnabod lefel sgiliau iaith y gweithle a defnyddio hynny yn waelodlin i gynnig hyfforddiant addas i ddatblygu sgiliau a hyder.
- iv) Cyfleoedd i bob gweithiwr iechyd a gofal gyfrannu at eu datblygiad proffesiynol parhaus drwy feithrin gwell dealltwriaeth am arwyddocâd iaith wrth ddarparu gwasanaeth.
- v) Cyfleoedd i ymwelwyr iechyd gyfrannu at eu datblygiad proffesiynol parhaus drwy gynyddu eu dealltwriaeth am broses caffael iaith ymysg plant bach uniaith Gymraeg yng Nghymru.
- vi) Defnyddio dulliau ymarferol fel y bathodyn *laith Gwaith* i'w gwneud hi'n haws adnabod gweithwyr syn siarad Cymraeg.

1. Y Cyd-destun a'r Nodau

1.1 Nod yr ymchwiliad yw cyfrannau at y broses o ddatblygu Fframwaith Strategol ar gyfer y Gymraeg yn y Gwasanaethau Iechyd a Gofal yng Nghymru, trwy archwilio profiadau, barn a phersbectif defnyddwyr y gwasanaethau iechyd a gofal a'u gofalwyr.

1.2 Yn hynny o beth, mae'r ymchwiliad yn diweddar ac yn adeiladu ar y sylfaen wybodaeth a ddatblygwyd eisoes ynghyd â phrofiad siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'n dilyn yn nhraddodiad darnau eraill o ymchwiliad ansoddol yng Nghymru, er enghraifft, Roberts (1994);¹ Thomas (1998);² Madoc-Jones (2004);³ Prys (2009)⁴ a'r arolwg fwy cynhwysfawr a wnaed o'r gwasanaeth iechyd gan Misell, (2000)⁵.

1.3 Fel gydag ymchwiliad Misell, mae'r ffocws y tro hwn hefyd ar bedwar grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth ble mae'r angen i gyfathrebu mewn un iaith yn hytrach na'r llall yn fater hanfodol yn hytrach nag yn gonsesiwn a ble mae'n ymddangos, ar sail y gwaith uchod, fod cysylltiad clos rhwng defnyddiaid iaith ac ansawdd yr ymyriad neu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

1.4 Y grwpiau blaenoriaeth dan sylw yw:

plant

pobl hŷn

¹ Roberts, G., 1994, Nurse/Patient Communication within a Bilingual Health Care Setting, *British Journal of Nursing* 3(2)

² Thomas, G., 1998, *The Experiences of Welsh-speaking Women in a Bilingual Maternity Service*, Traethawd MSc heb ei gyhoeddi, Caerdydd: Prifysgol Cymru

³ Madoc-Jones, I., 2004, Linguistic sensitivity, indigenous peoples and the mental health system in Wales, *International Journal of Mental Health Nursing*, 13 (216-224)

⁴ Prys, C., 2009, *Defnydd o'r Gymraeg yn y Trydydd Sector yng Nghymru*, Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Bangor: Prifysgol Cymru

⁵ Misell, A., 2000, *Y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd*, Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru

defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, yn cynnwys dementia, a phobl ag anableddau dysgu.

1.5 Felly, aeth yr ymchwiler ati i ystyried profiadau defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith yn y pedwar maes, gan wahodd ymateb naill ai gan ddefnyddwyr neu eu gofalywyr, a gan gyfyngu'r dystiolaeth i'r hyn sydd wedi digwydd yn ystod y tair blynedd diwethaf.

2. Dulliau

2.1 Seiliwyd yr ymchwil ar dderbyn tystiolaeth gan leiafswm o 40 ymatebydd gan anelu at rif optimwm o 60 (hynny yw, lleiafswm o ddeg ymatebydd ymhob un o'r grwpiau blaenoriaeth, neu optimwm o 15). I wneud hynny, defnyddiwyd y cyfryngau lleol a chenedlaethol i sicrhau sylw eang i'r ymchwil a gwahoddiad i gymryd rhan. Anfonwyd llythyr golygyddol at 46 o bapurau lleol wythnosol a Datganiad i'r Wasg at y *Western Mail*; *Daily Post*; *Golwg*; *Y Cymro*; rhaglen brynhawn S4C *Wedi 3*, a'r rhaglen drafod foreol ar BBC Radio Cymru, *Nia Roberts*. Yn ogystal, anfonwyd llythyron at:

bob un o'r 38 papur bro

pedwar cylchgrawn enwadol

21 Menter Iaith

12 Cyngor Iechyd Cymuned

chwe asiantaeth trydydd sector sy'n gweithio gyda'r grwpiau blaenoriaeth ar gyfer yr ymchwil.

2.2 Rhannwyd gwybodaeth am yr ymchwil ymhlith y swyddogion perthnasol yn Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Merched y Wawr. (Gwelir copïau sampl o'r deunydd cyhoedduswydd yn Atodiad 1).

2.3 Cafwyd cyfweiliad ar *Wedi 3* ac ar raglen *Nia Roberts*, a defnyddiwyd Panel Gofal Merched y Wawr yn fforwm i rannu gwybodaeth am yr ymchwil ymhlith aelodau.

2.4 Erbyn wythnos olaf mis Ionawr a dechrau mis Chwefror 2011, talodd y sylw yn y cyfryngau ar ei ganfed wrth i ymatebwyr ddechrau cysylltu â'r tîm ymchwil. Ar ben hynny, mae'r cysylltiad â'r mudiadau defnyddwyr wedi sicrhau diddordeb cyson trwy gydol y cyfnod ymchwil, â thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yn cael ei derbyn tan 31 Mawrth. Roedd y gefnogaeth gan fudiadau defnyddwyr yn

arbennig o ddefnyddiol ac yn help i gryfhau nifer yr ymatebion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl a phobl ag anableddau dysgu, sef y ddau grŵp yr oedd y dulliau ymchwil yn peri'r broblem fwyaf iddynt.

2.5 Un o'r cyfyngiadau posib y mae'n rhaid ei gydnabod yw'r posibilrwydd fod y dulliau recriwtio wedi ffafrio'r ymatebwyr hynny a oedd wedi eu stigmatiddio leiaf gan eu hamgylchiadau. Mae nifer yr ymatebion ar ran plant, fel y gwelir yn Nhabl 1, yn awgrymu fod nifer o'r rhieni a ymatebodd yn teimlo'n ddigon hyderus a pharod i rannu eu profiad. I ddefnyddwyr mwy bregus, roedd problem o safbwynt y gallu neu'r cymhelliad yr oedd ei angen i ymateb a'r hyder i ddatgelu a thrafod gwybodaeth bersonol. Ond, fel yr awgrymwyd uchod, bu'r cymorth a gafwyd gan fudiadau defnyddwyr yn gyfrwng i sicrhau bod modd cynnwys ambell lais mwy ymylol a bregus.

Tabl 1: Nifer yr ymatebion yn ôl categori defnyddiwr

Plant	17
Pobl hŷn	15
Pobl â phroblemau iechyd meddwl (yn cynnwys dementia)	10 (â dementia: 4)
Pobl ag anableddau dysgu	9
Cyfanswm yr ymatebwyr:	51

2.6 Felly, derbyniwyd y nifer optimwm o ymatebion ar gyfer dau o'r grwpiau blaenoriaeth, gydag un o'r ddau grŵp arall yn cyrraedd y trothwy isaf o 10, a'r llall yn disgyn ychydig yn is na hynny â naw ymatebydd yn cymryd rhan. Mae rhai o'r plant y derbyniwyd tystiolaeth ar eu cyfer hefyd yn perthyn i'r grŵp hwn o bobl ag anableddau dysgu.

2.7 O safbwynt dosbarthiad daearyddol, cafwyd ymateb reit eang ar draws sawl rhan o Gymru, fel y gwelir yn Nhabl 2. Rhaid cydnabod y clwstwr amlwg o

ymatebion a ddaeth o Geredigion a hynny o bosib yn adlewyrchu'r ffaith fod y tîm ymchwil wedi ei leoli yn lleol yn hytrach na set benodol o faterion llosg.

Table 2: Nifer yr ymatebion yn ôl ardal ddaearyddol

Ynys Môn	2
Caerdydd	6
Sir Gaerfyrddin	4
Ceredigion	17
Conwy	3
Sir Ddinbych	4
Gwynedd	4
Castell Nedd Port Talbot	1
Casnewydd	1
Sir Benfro	2
Powys	1
Rhondda Cynon Taf	2
Abertawe	2
Bro Morgannwg	1
Wrecsam	1
Cyfanswm	51

Yn Atodiad 2, ceir manylion pellach am yr ymatebion ymhob grŵp blaenoriaeth fesul ardal.

2.8 Ar ôl iddyn nhw gysylltu, roedd unigolion yn derbyn llythyr yn amlinellu cefndir yr ymchwil a'r defnydd a wneir o'r dystiolaeth. Gofynnwyd iddyn nhw lenwi ffurflen ganiatâd yn nodi sut roedden nhw'n dymuno cyflwyno tystiolaeth. Ceir copi yn Atodiad 3.

2.9 Derbyniwyd ffurflenni caniatâd wedi eu llenwi gan 56 unigolyn. O'r rhain, derbyniwyd tystiolaeth gan 51; roedd pump a ddywedodd y bydden nhw'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig heb wneud hynny adeg paratoi'r adroddiad hwn.

2.10 Cyn cyflwyno tystiolaeth, derbyniodd ymatebwyr set o'r cwestiynau ymchwil yn sail i'w hymateb. Ond roedd pawb hefyd yn cael eu gwahodd i godi pwyntiau ychwanegol i ddarlunio eu profiad penodol. Ceir copi o'r cwestiynau ymchwil yn Atodiad 4.

Tabl 3: Nifer yr ymatebion yn ôl cyfrwng

Cyfweliad dros y ffôn wedi ei drefnu ymlaen llaw	22
Cyfweliad wyneb yn wyneb	20
Tystiolaeth ysgrifenedig trwy lythyr / e-bost	9
Cyfanswm	51

2.11 Cyflwynir canfyddiadau'r ymchwil ar sail y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod Ionawr – Mawrth 2011 ac ar sail sampl a oedd yn cynnwys 51 ymatebydd, nifer ohonyn nhw'n awyddus ac yn abl i ymateb i'r dulliau recriwtio a ddefnyddid. Gydag ychwaneg o amser, mae'n bosib y byddai modd cyrraedd mwy o unigolion bregus a chynnwys eu llais nhw, sy'n llai tebygol o gael ei glywed.

2.12 Er mynd ati i wahodd ymatebion o bob math, rhai cadarnhaol a negyddol, roedd y mwyafrif yn cyfeirio at wendidau yn hytrach na chryfderau ac enghreifftiau o arfer da yn y gwasanaethau sydd ar gael.

2.13 Er yn hoelio sylw ar brofiadau'r defnyddwyr gwasanaeth yn y pedwar maes blaenoriaeth, mae peth o'r dystiolaeth hefyd yn cyfeirio at anghenion iaith gofalwyr a rhieni.

3. Canfyddiadau'r Ymchwil: Profiad Defnyddwyr a Gofalwyr

3.1 Cyflwyniad

Wrth dynnu ynghyd y dystiolaeth ymchwil, gwneir fawr o ymdrech i ddadansoddi na dehongli profiadau'r defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr. Gyda'r dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, gwneir ymgais i adlewyrchu mewn ffordd mor fanwl â phosib union leisiau a phersbectif yr unigolion a gymerodd ran. Tynnir y profiadau ynghyd fesul thema; mae rhai ohonyn nhw wedi eu gosod yn ddaearyddol a cheir bod gan ambell fater oblygiadau penodol o ran eu safle rhanbarthol. Ond ar y cyfan, mae'n ymddangos bod nifer o'r profiadau a'r pwyntiau dan sylw yn codi'n weddol gyson ar draws Cymru.

3.2 Gosod y cyd-destun

3.2.1 Mae rhiant i blentyn yng Ngwynedd, ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol niferus, yn cyfeirio at eu profiad fel teulu yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Wrth wneud hynny, mae'n crynhoi ystod y profiadau y soniwyd amdany'n nhw gan nifer o ymatebwyr. Yn y bôn, ceir tri math o wasanaeth iaith, meddai hi. Yn gyntaf,

'Rydym yn derbyn nifer o wasanaethau yn Gymraeg, er enghraifft, y meddyg teulu, gweithiwr cymdeithasol, yr holl wasanaethau addysg. Yn yr holl wasanaethau yma, mae X, ein mab, yn gallu cael ei gynnwys yn llawn ymhob trafodaeth, mae yn gallu mynegi ei farn yn glir ac mae'r gweithiwr yn gallu dod i'w adnabod fel unigolyn gyda barn a syniadau ei hun. Fel plentyn ag anableddau, mae'n gorfod derbyn llawer o gymorth gyda thasgau bob dydd, ac mae pob dim mae'n gallu ei wneud droso'i hun, fel cyfathrebu, yn hwb mawr i'w hunan hyder o.'

3.2.2 Dyma'r gwasanaeth gorau, meddai hi. Yna, mae'n pwysu a mesur y math salaf o wasanaeth ar ben arall y continwmm.

‘Rydym yn derbyn gwasanaethau eraill lle nad yw’r gweithiwr yn siarad Cymraeg o gwbl ... yn y gwasanaethau yma nid yw X yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau, nid yw yn gallu mynegi barn yn uniongyrchol ac yn sicr, nid yw’r gweithiwr yn gallu dod i’w adnabod fel unigolyn, gan eu bod yn gorfod ceisio cyfathrebu gydag e drwyddon ni fel rhieni. Waeth beth yw safon ‘proffesiynol’ y gwasanaeth yma, nid yw yn gallu bod yn wasanaeth da yn ei hanfod achos mae un ffactor allweddol ar goll – y gallu i gyfathrebu gyda’r claf ei hun.

‘Rydym wedi dod ar draws enghreifftiau o bobl broffesiynol yn ymddwyn yn hollol annerbyniol, y rhan fwyaf ohonynt, rwy’n credu, yn codi o ddiffyg hyfforddiant ac ymwybyddiaeth. Rydym wedi dod ar draws nifer o weithwyr proffesiynol sydd yn anwybyddu X yn llwyr pan mae’n siarad â nhw yn Gymraeg. Dwi’n gorfod gofyn iddyn nhw ei ateb ac yn awgrymu geiriau addas iddynt fel “da iawn, X” ... Rydym wedi stopio defnyddio rhai gwasanaethau oherwydd nid yn unig nad ydynt ar gael yn Gymraeg, ond gan bod y gweithwyr yn dangos cyn lleied o ddealltwriaeth, rydym yn colli hyder yn eu proffesiynoldeb cyffredinol, ac yn teimlo diffyg parch atynt yn gyffredinol.’

3.2.3 Mae ymatebwyr eraill yn gwneud sylw tebyg, ac yn arbennig rhieni i blant ag anableddau. Maent hwythau hefyd yn dweud eu bod yn tynnu’n ôl a pheidio â defnyddio gwasanaethau cyfrwng Saesneg am eu bod yn teimlo eu bod nhw’n amhriodol ac felly yn aneffeithiol i’w plant.

3.2.4 Mae’r trydydd math o wasanaeth y sonnir amdano gan y rhiant yma o Wynedd yn cynnig pwynt hanner ffordd,

‘Rydym wedi dod ar draws rhai gwasanaethau yn y canol rhwng y ddau dwi wedi sôn amdanynt nhw, lle mae’r gweithiwr proffesiynol yn gallu

cyfathrebu rhywfaint gyda'r plentyn yn Gymraeg, yn ymddiheuro am fethu gwneud yn well (felly yn cydnabod bod hyn yn wendid yn y gwasanaeth), ac yn cyfathrebu yn Saesneg gyda'r rhieni ... Maen nhw'n cyfleu parch at eich sefyllfa chi ac yn gwneud i chi deimlo'n fwy cyfforddus.'

3.2.5 Mae nifer o ymatebwyr yn gwneud sylw tebyg ac yn dweud cymaint y maen nhw'n gwerthfawrogi'r camau a gymerir gan weithwyr proffesiynol Saesneg eu hiaith i gydnabod eu hiaith trwy ddefnyddio ambell air wrth gyfarch neu gyflwyno. Yn ôl un person h n,

'Byddan nhw'n trio dweud rhywbeth ac ych chi'n trio'u helpu nhw ac mae hynny'n helpu da'r berthynas.'

3.2.6 Mae mam i ddyn ifanc ag anableddau dysgu yn sôn am y ffordd y mae eu meddyg teulu yn defnyddio'r Gymraeg â'i mab,

'Mae e'n andros o gefnogol; mae o'n trio'i orau i ddefnyddio ychydig o Gymraeg gyda X. Wrth archwilio'i glustiau bydd o'n dweud petha fel, "golau mlaen, ti isio dal hwn" ... Mae X ag ofn cael trin ei glustiau ond mae o'n ymlacio.'

3.3 Sensitifrwydd iaith a 'gwyleidd-dra proffesiynol'

3.3.1 Mae un ymatebydd yn cyfeirio'n glir at hynny,

'Dyw hi ddim yn ymarferol disgwyl i bawb gyfathrebu yn Gymraeg ond gall pawb ddangos parch a hyblygrwydd. Rhaid i'r gweithiwr gymryd cam yn ôl a dangos ychydig o wyleidd-dra proffesiynol ... Dydi o ddim yn gorfod costio pres. Agwedd ydi o, yr awydd i fod yn well.'

3.3.2 Mae un rhiant yn sôn am y profiad o fynd yn rheolaidd â'i mab i Ysbyty Plant Alder Hey yn Lerpwl ac am y syndod gafodd ar ei hymweliad cyntaf wrth

gael ei chyfarch yn Gymraeg gan dderbynydd a oedd yn gallu cyfeirio at restr o gyfarchion mewn sawl iaith a dweud, 'Bore da, sut ydych chi?'

3.3.3 Byddai'r meddyg a oedd yn gyfrifol am ofal ei mab yn Alder Hey hefyd yn cydnabod iaith a chefnidir y bachgen bach trwy ddweud, er enghraifft, *'Tell me, X, how do I say this in Welsh?'* Roedd hynny'n help i greu *rapport* a pherthynas glinigol rhwng meddyg a phlentyn, meddai'r fam.

3.3.4 Mae rhiant arall yn cyfeirio at brinder gwasanaethau seiciatryddol cyfrwng Cymraeg gan sôn,

'Yn rhyfedd iawn, mewn uned seiciatryddol ochr draw'r ffin yn Lloegr y cawson ni'n ddealltwriaeth fwyaf am orfod ymdopi â salwch X trwy gyfrwng ein ail iaith, a hynny gan therapydd teulu oedd yn dod o'r Swistir a oedd hefyd yn cyfathrebu yn ei ail iaith.'

3.3.5 Mae ymatebwyr hefyd yn disgrifio sefyllfaoedd pan na ddangoswyd fawr ddim sensitifrwydd na pharch at iaith, fel yn yr enghraifft hon gan ofalwr sy'n sôn am ei mam, oedd â dementia, pan oedd hi'n derbyn gofal mewn ysbyty yng ngorllewin Cymru.

'Fe'i gorchmynnwyd gan fwy nag un nyrs i siarad Saesneg. "Mae hon yn gas i fi," meddai mam wrth fy mrawd am y nyrs oedd yn gosod nodwydd yn ei bol er mwyn atal y gwaed rhag ceulo. "*You should speak English so that I can understand,*" meddai'r nyrs wrthi. Doedd gan amryw o'r staff ddim amgyffred o'r angen i ddeall anghenion emosiynol claf Cymraeg ei hiaith a dryslyd ei meddwl.'

3.3.6 Mae thema gwyleidd-dra proffesiynol yn codi drachefn ym mhrofiad rhiant arall,

‘Pan oedd X yn fychan iawn, roeddwn i wedi ei adael am ddwy funud mewn stafell efo therapydd di-Gymraeg. Roedd X wedi troi rownd a dweud “*one, two, three, four, five, six, seven, eight, nine, ten,*” sef pob gair Saesneg roedd o’n eu gwybod ar y pryd. Doedd hi ddim yn deall pam roedd o wedi dweud hyn wrthi a dyma fi’n gorfod esbonio, “*He’s using all the English words he can to communicate with you. He has a learning disability; you are a professional person. Is there anything you think you can learn from what has just happened?*”

3.4 Adnabod defnydd iaith – symud y baich oddi ar y claf at y darparwr

3.4.1 I nifer o ymatebwyr, mae iaith yn aml yn ffactor cudd sydd heb ei gydnabod yn y berthynas rhyngddyn nhw a’u darparwyr iechyd a gofal. Caiff hynny ei grynhoi gan berson h n sy’n sôn am ei apwyntiadau misol mewn clinig llygaid.

‘Dwi’n mynychu’r clinig llygaid unwaith y mis. Nid oes neb wedi gofyn pa iaith yw fy newis a Saesneg sy’n cael ei gynnig.’

Mae defnyddiwr gwasanaethau iechyd meddwl yn olrhain ei phrofiad hithau,

‘Pan ffonies i siarad â’r person o’n i fod i’w gweld, ofynnais i os oedd hi’n siarad Cymraeg a’r unig ateb ges i oedd “Na” – yn eitha swta.’

Ni chododd neb y cwestiwn iaith eto. Nid oedd y defnyddiwr yn teimlo y gallai godi’r pwnc eilwaith, er ‘...byddai’n well ’da fi os bysw’n i wedi gallu siarad am bethe yn Gymraeg.’

3.4.2 Mae sawl ymatebydd yn dweud ei bod hi’n bwysig adnabod defnydd iaith o’r cychwyn cyntaf a defnyddio’r wybodaeth honno wedyn i roi siâp ar y gwasanaeth sy’n dilyn. Dylid gosod dyletswydd ar y darparwr i holi’r cwestiwn yn hytrach na disgwyl i’r defnyddiwr orfod adnabod yr angen. Mae hynny’n arbennig o berthnasol i ddefnyddwyr bregus yn y grwpiau blaenoriaeth, nifer ohonyn nhw

heb fod mewn sefyllfa i dynnu sylw at yr angen eu hunain. Hyd yn oed os nad oes modd i ddarparwyr gwasanaeth ymateb yn briodol ar y pryd, gellid casglu data am angen sydd heb ei ddiwallu (*unmet need*) a defnyddio hynny i ddylanwadu ar strategaethau sgiliau iaith ac ar strategaeth i ddatblygu'r gweithlu.

3.4.3 Ym marn un tad,

'Os yw'r plentyn yn uniaith, yna dylid *cynnig* gwasanaeth yn Gymraeg heb i chi orfod gofyn ... Tase plentyn Saesneg yn cael gwasanaeth Cymraeg, bydde digon o ffys wedyn.'

3.4.4 Ac mae gofalwr am berson â dementia yn dweud,

'Dwi wedi gwneud y pwynt o'r cychwyn, gawn ni wasanaeth yn Gymraeg, plis? Ond wedi dweud hynny, mae tuedd i ni orfod ail godi'r pwynt ar bob cam yn y broses.'

3.4.5 Mae rhiant o ogledd ddwyrain Cymru yn crynhoi, 'Biti na fasen nhw'n gofyn am ddewis iaith reit ar y dechrau.' Mae'n awgrymu ei bod hi'n rhy hwyr unwaith rydych chi gyda'r gweithiwr wyneb yn wyneb.

'Os dach chi'n dweud rhywbeth yr adeg honno, mae fel tasech chi'n dweud, dwi'm isio *chi*. Mae o'n teimlo'n rhy bersonol. Mae angen i'r system fflagio'r holl beth fyny. Mi fyddai'n fwy niwtral wedyn.'

3.4.6 Mae ymatebwyr eraill hefyd yn dweud y dylai'r system fedru adnabod dewis iaith yr unigolyn adeg y cyfeiriad a bod y wybodaeth honno wedyn yn dilyn y defnyddiwr wrth iddo symud drwy'r system a chael ei fflagio fyny ar bob pwynt cyfeirio newydd. Gwneir y sylw yma gan riant i blentyn ifanc yn Sir Gâr sydd wedi ei gyfeirio at y gwasanaeth therapi iaith a lleferydd.

‘Daeth y llythyr wrth y Bwrdd Iechyd yn Saesneg er mod i wedi gofyn am wasanaeth yn Gymraeg. Ar ôl cael y llythyr, fe’u ffoniais i nhw a dweud bod eisiau i ni gael rhywun sy’n siarad Cymraeg ond yr ateb ges i oedd mai dim ond un therapydd sy’n siarad Cymraeg yn Sir Gâr a bod ganddyn nhw restr aros o 10 wythnos.’

3.5 Gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – ai trwy hap a damwain neu gynllun?

3.5.1 Mae unigolion mewn sawl rhan o Gymru yn sôn am yr argraff mai ar hap a damwain mae dod o hyd i wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn hytrach nag ar sail cynllunio clir. I un ymatebydd yn y de orllewin, ‘Hap a damwain yw’r cyfan ... Mae’n dibynnu pwy sydd ar gael ar y pryd.’

3.5.2 Yng Ngwynedd, mae ymatebwyr yn cyferbynnu’r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael drwy’r awdurdod lleol â’r hyn sy’n cael ei ystyried ganddyn nhw yn ddarpariaeth fwy *ad hoc* gan y bwrdd iechyd lleol. Dywed un fam,

‘Mae pob gweithiwr cymdeithasol ry’n ni wedi eu cael ar hyd y blynyddoedd wedi siarad Cymraeg. Mae hynny’n allweddol i ni. Fel mam, fi sydd â llais i X a dwi’n fwy cyfforddus yn Gymraeg. Ond, mae’r clinigau iechyd yn Saesneg i gyd; dan ni’n ei ffeindio hi’n anodd dallt weithiau. Pan gewch chi rhywun sy’n siarad Cymraeg, mae e’n gwneud ffasiwn wahaniaeth.’

3.5.3 Yn ôl un ymatebydd, ‘Mae’r arfer da pan mae o’n digwydd, yn digwydd yn organig.’ Mae’n dadlau nad cynllunio ymwybodol sydd i gyfrif; yn hytrach mae’n adlewyrchu’r ffordd y gall darparwyr gofal iechyd ddenu gweithlu lleol o gymunedau sydd â chanran arwyddocaol o bobl â sgiliau dwyieithog.

3.5.4 Mae rhiant arall yn cyfeirio at yr eironi wrth drosglwyddo ei ferch fach o ward y plant mewn ysbyty yng ngorllewin Cymru, lle nad oedd neb yn siarad Cymraeg ar y pryd, i ysbyty’r plant yng Nghaerdydd.

‘Es i lan i’r ward a chlywed M, fy ngwraig, yn siarad Cymraeg. O’n i’n meddwl fod mam wedi cyrraedd. Ond sylweddolais i wedyn bod y meddyg yn siarad Cymraeg – o ffantastig. Roedd nyrs ar y ward hefyd oedd yn siarad bach o Gymraeg. Roedd hynny’n help i X, oedd yn dair oed a dim yn siarad Saesneg. Oedd hi’n casáu cael y nodwydd, ond oedd hi’n esmwytho gyda’r nyrs oedd yn siarad bach o Gymraeg. Oedd hi’n gallu defnyddio Cymraeg i esbonio i X beth oedd hi’n wneud.’

3.5.5 Mae’r methiant i ystyried proffil iaith y defnyddiwr a’r gweithiwr yn amlwg ym mhrofiad person ifanc sy’n defnyddio’r gwasanaethau iechyd meddwl yng ngogledd ddwyrain Cymru. Dim ond ar ôl i’w pherthynas broffesiynol â’i seiciatrydd ddod i ben y daeth hi i ddeall ei fod e’n medru’r Gymraeg.

3.5.6 Mae person arall sy’n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yn ne Cymru yn sôn sut y bu iddi ffeindio’n hollol ddamweiniol bod ei seiciatrydd hithau hefyd yn siarad Cymraeg. ‘Wnaeth y seiciatrydd na neb ofyn os o’n i’n siarad Cymraeg.’ Dim ond ar ôl iddi sôn wrtho am ei chefnidir galwedigaethol y daeth y naill a’r llall i wybod am y Gymraeg. Roedd medru defnyddio’r Gymraeg yn y cyddestun therapiwtig yn werthfawr, meddai.

‘Oedd e’n wych i fi. O’n i’n isel fy ysbryd. A do’n i ddim yn defnyddio’r Gymraeg bob dydd. Odd y sgil wedi mynd dan y carped ... Ond wnes i sylweddoli, wy’n dal yn athrawes. Odd e’n anhygoel i fi. Pan o’n i’n isel, odd y sgiliau i gyd wedi mynd. Odd popeth yn ddiwerth. Ond odd cael y cyfle i siarad Cymraeg – waw ... Odd e’n drobwynt yn y broses o wella.’

3.6 Iaith a gofal yn mynd law yn llaw

3.6.1 Mae rhai o’r teuluoedd a gymerodd ran yn yr ymchwil yn cyfeirio at y cysylltiad annatod rhwng iaith a gofal. Mae perthynas yn disgrifio arwyddocâd hynny i bâr oedrannus oedd yn derbyn gofal yn y cartref trwy asiantaeth breifat. Roedd y gofalwyr yn ymweld dair gwaith y dydd,

‘Roedd lot ohonyn nhw’n ddi-Gymraeg ac roedd hynny’n ychwanegu at eu dryswch nhw. Fe fydden nhw’n gofyn pethe fel “*Would you like supper?*” ac fe fydden nhw’n dweud eu bod nhw wedi cael bwyd pan fydden nhw heb.’

3.6.2 Yn y sefyllfa honno, roedd y teulu’n teimlo fod ‘... y gofal a’r iaith yn mynd law yn llaw’ a bod ansawdd y gofal yn cael ei gyfaddawdu oherwydd y methiant i gyfathrebu â’r ddau ddefnyddiwr yn eu hiaith gyntaf, ‘... yr unig iaith oedd erioed wedi cael ei defnyddio ar eu haelwyd nhw.’ Canlyniad hynny, meddai’r teulu, oedd bod prydau bwyd yn cael eu methu, dillad heb eu newid a methiant cyffredinol i gynnig gofal digonol.

3.6.3 Gwnaed cwyn i’r awdurdod lleol, cynhaliwyd ymchwiliad yn rhan o’r drefn POVA (Amddiffyn Oedolion Bregus) a threfnwyd tîm newydd o ofalwyr a oedd yn medru’r Gymraeg. Yn ôl yr ymatebydd, cafodd hynny ddylanwad uniongyrchol ar ‘y berthynas ofal.’ Wrth rannu’r un iaith a’r un gyfeiriadaeth ddiwylliannol, meddai, roedd modd i’r gofalwyr ddod i adnabod y ddau ddefnyddiwr – eu ‘cocsio’ nhw i fwyta ac ymolchi, er enghraifft,

‘Roedd iaith yn ymylol iddyn nhw yn yr asiantaeth ond yn allweddol iddyn nhw fel cwpwl.’

Mae ymatebydd arall yn cyfeirio at y ffaith fod iaith yn ystyriaeth ganolog wrth ofalu am berthynas sydd â dementia,

‘Dwi ’di gorfod mynnu cael rhywun sy’n siarad Cymraeg. Mae’r bore mor bwysig. Pan gei di dy ddeffro mewn iaith estron, dydi o ddim yn ddechrau da i’r diwrnod ... Os caiff X ei deffro yn ei mamiaith mae’n fwy *perky* ... Mae’r ferch sy’n dod yn y bore yn dysgu Cymraeg, mae’n siarad Cymraeg â X a Saesneg efo fi.’ Ac mae hynny’n gweithio’n dda, meddai.

3.6.4 Mae tystiolaeth y ddau ymatebydd hyn yn awgrymu bod iaith yn ganolog wrth ofalu am unigolion bregus a pha mor bwysig felly yw ystyried darpariaeth sy'n addas yn ieithyddol wrth gaffael gwasanaethau trwy drefniadau cytundeb trydydd parti, er enghraifft.

3.6.5 Mae iaith a gofal hefyd yn mynd law yn llaw â'i gilydd i fam sy'n gofalu am ddyn ifanc ag anabledau niferus. Mae'n disgrifio achlysur pan fu i'w ofalwr, oedd yn dysgu'r Gymraeg, fethu â'i ddeall. Arweiniodd hynny at gamddealltwriaeth a gofid mawr, meddai.

'Mi wnaeth X ofyn am 'Cerddwn Ymlaen'. Wnaeth y gofalwr ddim dallt a throi'r cyfrifiadur ymlaen. Mi wnaeth X wylltio ac mi wnaeth popeth fynd o chwith. Camddealltwriaeth oedd o, ond mi wnaeth X wylltio ac aeth ei ymddygiad yn fwy heriol. Rodd o i gyd lawr i gyfathrebu. Ond o'n i'n poeni am ei bwysedd gwaed o am ei fod o mor *anxious*.'

Ers hynny, newidiwyd ei raglen gefnogi, ac

'Erbyn hyn, mae pawb sy'n gofalu r an yn siarad Cymraeg; mae pawb yn cyfathrebu yn yr un ffordd gyda PECS (*Picture Exchange Communication System*) hefyd a dydyn ni ddim yn cael y tempwr mawr 'ma bellach. Mae ble roedden ni a ble rydan ni r an ddim yr un man. A beth sy'n wahanol yw ein bod ni i gyd yn defnyddio Cymraeg efo fo ac yn defnyddio'r lluniau. Mae X yn berson hollol wahanol. Dwi mor falch ohono fo. Gwreiddyn y blips yn y gorffennol oedd problemau cyfathrebu ... Mae cyfathrebu yn ganolog i wasanaeth da.'

3.7 Iaith, therapi a iechyd meddwl

3.7.1 Mae un ymatebydd yn disgrifio arwyddocâd iaith yn y cyd-destun therapiwtig wrth sôn am ei phrofiad yn derbyn gwasanaeth cyfrwng Saesneg. Mae'n cyfeirio at ei chwmselydd ac yn dweud,

'Roedd hi'n lyfli ond o'n i'n teimlo'n afreal iawn yn siarad Saesneg ... Tase hi'n siarad Cymraeg, fydden ni wedi cyrraedd rhywle arall.'

3.7.2 Roedd ganddi deimlad bod defnyddio Saesneg i gysylltu â'i byd mewnol, emosïynol yn ei gwneud hi'n amhosib iddi wneud y defnydd gorau o'r gwasanaeth oedd yn cael ei gynnig. Doedd dim perthynas rhwng y geiriau oedd yn cael eu hyngan a'r profiadau oedd dan sylw. Oherwydd hynny, mae'n awgrymu bod y canlyniad mewn un iaith yn wahanol o bosib i'r hyn fyddai yn yr iaith arall.

3.7.3 Mae ymatebydd arall yn disgrifio effaith y gwasanaethau seiciatryddol a dderbyniodd ei fam dros nifer o flynyddoedd, y mwyafrif ohonyn nhw yn Saesneg; bu ei fam farw ym mis Tachwedd 2010.

'Oedd hi'n arfer mynd i'r ysbyty ond oedd hi'n anodd iddi fynegi ei hunan yn Saesneg. Felly, doedd hi ddim yn teimlo bod pethe'n symud cyn gynted ag y dylen nhw. Oedd hi'n arfer teimlo bod nhw'n siarad dros ei phen hi a do'n nhw ddim yn gallu cael deialog â hi. Oedd hi'n cael nyrsys cymuned (seiciatrig) oedd yn siarad Cymraeg ac oedd hi'n arfer dweud bod nhw'n gallu gwranddo.

'Ar ôl iddi farw, ffeindiais i sgraps o bapur ybyti'r lle yn y t â geiriau Saesneg arnyn nhw, yn barod ar gyfer gweld y doctor. Oedd hi'n arfer gofyn i fi, beth weda i sy'n bod arna i? *I feel very bad?* Wy'n teimlo'n isel.'

3.7.4 Iddi hithau chwaith, doedd yna'r un fersiwn Saesneg hawdd o'r geiriau yr oedd eu hangen arni yn y cyd-destun therapiwtig.

'Roedd ganddi ddiffyg hyder hefyd. Roedd ganddi'r canfyddiad 'ma bod 'da'r doctor fwy o addysg na hi.'

Pan oedd y doctor hefyd yn siarad Saesneg, roedd hynny'n ychwanegu at y teimlad o bellter ac anghyfartaledd yn y berthynas rhyngddyn nhw, meddai ei mab, ac roedd hynny yn ei gwneud hi'n fwy anodd fyth iddi siarad am ei salwch. Roedd hi'n teimlo'n gyfan gwbl ddi-rym.

'Wedyn oedd hi'n arfer cau fyny a pheidio â dweud dim a falle bod hynny'n ychwanegu at ei salwch. Oedd hi jyst yn moyn meddyginiaeth gryfach achos doedd siarad ddim yn gweithio.'

3.7.5 Roedd ymatebwyr hefyd yn awgrymu mewn rhai amgylchiadau bod y prinder gwasanaethau iechyd meddwl yn Gymraeg o bosib yn datgysylltu defnyddwyr ac yn eu pellhau nhw i ryw raddau rhag y broses therapiwtig.

3.7.6 Mae un rhiant yn sôn am y ffordd yr oedd ei merch yn arfer celu'r gwir a '... dweud wrth y meddygon beth roedden nhw am ei glywed.' Mae'n gofyn tybed a fyddai gwasanaeth cyfrwng Cymraeg wedi ei gwneud hi'n bosib iddi fynegi ei hun a derbyn diagnosis ynghynt.

3.7.7 Mae defnyddiwr gwasanaeth arall yn sôn am ei brofiad yntau wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl dros gyfnod hir; mae'n cyffwrdd â'r elfen o ddatgysylltu a rheolaeth bosib sy'n digwydd wrth ddefnyddio'r ail iaith,

'Dydyn nhw ddim yn cael gwir farn rhywun. Fedra i'm dweud sut dwi'n teimlo. Fedra i'm ei roi o mewn geiriau ... Dwi di dweud mwy wrthoch chi na dwi'n dweud wrthyn nhw. Mae'n saffach dweud dim byd.'

Mae hefyd yn cydnabod bod cyfathrebu yn ei ail iaith yn golygu bod modd camddeall,

‘Mae pawb yn meddwl bo fi’n anwybyddu nhw achos mod i mor slow’n ateb nhw nôl. Maen nhw’n camddeall. Dwi di cael hynny fwy nag unwaith.’

Weithiau, meddai, ‘Dwi’n stryglo i ddeall beth maen nhw’n ddweud. Dydw i’m yn teimlo bod hynny’n deg.’

3.7.8 Ychydig iawn o ymatebion iechyd meddwl gafwyd o ogledd orllewin Cymru. Ond mae un ymatebydd o Ynys Môn yn cyfeirio’n bositif at y profiad gafodd hi wrth dderbyn gwasanaeth seiciatryddol yn Ysbyty Gwynedd. Roedd y ddarpariaeth Gymraeg yn ‘dda iawn’ meddai.

‘Roedd pawb yn siarad Cymraeg. Roeddwn i’n medru siarad hefo nhw fel taswn i’n siarad hefo fy nheulu fy hun ... I mi, mae siarad Cymraeg yn help i wella.’

3.8 Staff Cymraeg eu hiaith – adnodd cudd?

3.8.1 Mae ymatebwyr ymhob un o’r pedwar maes blaenoriaeth yn siarad am y cyndynrwydd ar ran gweithwyr iechyd a gofal i ddefnyddio eu sgiliau yn Gymraeg.

3.8.2 Mae un fam yn adrodd y profiad gafodd hi gyda’i hymwelydd iechyd. Er fod yr ymwelydd iechyd yn medru siarad Cymraeg, roedd hi’n amharod gwneud hynny.

‘Sa i’n siarad Cymraeg iawn, meddai hi. Ond does dim rheswm iddi ymddwyn fel hyn. Does dim gwerth yn cael ei roi ar sgiliau dwyieithog.

Does dim hyfforddiant i adeiladu hyder ac i ymglyfarwyddo â geirfa fwy proffesiynol.'

3.8.3 Mae ymatebydd o dde Powys yn gwneud sylw tebyg,

'Daeth nyrs i'r t i weld y g r ac o'n i wedi gofyn iddi dros y ffôn y noson cyn 'ny, "Y'ch chi'n siarad Cymraeg?" "Only a little bit," meddai hi. Ond oedd hi'n gallu siarad Cymraeg gystal â fi. Os bysen i wedi dilyn beth wedodd hi dros y ffôn, fydden i ddim wedi siarad Cymraeg. A wnaeth e gymaint o wahaniaeth. Ddylech chi ddim gorfod mynd *cap in hand* a gofyn, ych chi'n siarad Cymraeg?'

3.8.4 Mae rhiant yn sôn am ei phrofiad â'r nyrsys oedd yn gofalu am ei mab bychan mewn ysbyty yn y gogledd ddwyrain,

'Pan oedd rhai o'r nyrsys di-Gymraeg yn gofalu, fe ddywedent yn aml nad oeddent yn gallu siarad llawer o Gymraeg neu nad oedd eu Cymraeg yn dda iawn. Ond nid lefel eu gallu a'u hyder nhw sy'n dod gyntaf yn fy marn i a byddwn yn cael aml i sgwrs ddifyr hefo nhw am hyn, ac yn eu hannog i ddefnyddio hynny o Gymraeg oedd ganddynt a'i fod yn Gymraeg ddigon da i wneud fy hogyn bach i deimlo'n fwy cartrefol yn yr ysbyty.'

3.8.5 Mae nifer o ymatebwyr yn awgrymu bod angen i gyflogwyr gydnabod a rhoi gwerth ar sgiliau iaith Gymraeg ar bob lefel, a datblygu systemau cynnal i'w gwneud hi'n bosib i staff ddatblygu a chryfhau eu sgiliau ymhellach.

'Mae angen codi hyder siaradwyr Cymraeg yn yr NHS a dysgwyr. Mae angen hyfforddiant arnyn nhw sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu maes nhw. Sut i asesu ac yn y blaen, pa eiriau i'w defnyddio. Os yw'r gweithiwr yn teimlo'n fwy hyderus maen nhw'n fwy tebygol i gynnig y gwasanaeth,

rhag bod pawb yn gorfod mynnu. Efallai bod eisiau tystysgrif i roi gwerth ar sgiliau dwyieithog i gydnabod gwerth hynny.

‘Os meddylwch chi am bobl yn ateb y ffon, os y’n nhw’n ddihyder, fe fyddan nhw’n anghyfforddus ac yn anfoddog ... Os allwch chi droi hynny ar ei ben, byddwch chi’n codi hyder, bydd y person yn fwy cyfforddus ac yn fwy tebygol o lawer o gynnig y Gymraeg.’

3.8.6 Yn ôl y person yma, mae angen i staff fod yn ‘rhagweithiol’ wrth ddefnyddio’r Gymraeg ac wrth gynnig gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr mwy bregus, ‘... achos dydyn nhw ddim yn mynd i ofyn eu hunain.’

3.9 Y tîm dwyieithog

3.9.1 Mae un rhiant yn gwneud y sylw pragmatig,

‘Dy’n ni ddim yn mynd i allu cael byd perffaith a phawb yn siarad Cymraeg ond os all y tîm meddygol gynnwys rhywun sy’n siarad Cymraeg, mae hynny’n help.’

3.9.2 Mae mam o Gaerdydd yn disgrifio’r profiad gafodd hi mewn Uned Newydd-anedig,

‘Saesneg oedd y prif iaith. Yn yr Uned *Neonatal* roedd un aelod o staff yn siarad Cymraeg. Roedd ein ffisiotherapydd yn siarad Cymraeg a dilynodd hi ni i roi gofal i’n mab yn ein cartref fel rhan o’r *neonatal outreach service*. Roedd hyn yn beth hyfryd, cael y gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.’

3.9.3 Mae ymatebydd arall yn sôn am fynd â’i mam oedrannus i gadw apwyntiad mewn clinig i gleifion allanol ac mae’n disgrifio pa mor werthfawr yw cael nyrs ddwyieithog sy’n gallu cadarnhau’r cyngor gafwyd ynghyd gan y doctor.

‘Daethon ni mas wrth y doctor a wedodd y nyrs yn Gymraeg, triwch rhain te a pheidiwch â chymryd y lleill. Liciwn i weld mwy o hyn yn digwydd, mae e’n help mawr. Mae lot o’r doctoriaid yn ddi-Gymraeg ond os yw’r nyrs yn y clinig yn siarad Cymraeg, mae hynny’n help. Os yw rhywun yn gallu egluro i chi, ych chi’n teimlo’n saffach. Mae’r broblem yn lleihau neu o leiaf ych chi’n ymlacio. Yn Saesneg, mae rhywbeth yn swnio’n gymhleth ond yn Gymraeg ych chi’n meddwl jiw, ’na beth mae e’n olygu.

‘Dyw clyw mam ddim cystal ag oedd e. Dyw’r neges ddim wastad yn cyrraedd yr ymennydd cystal ag oedd e. Felly mae cael nyrs sy’n gallu mynd y filltir arall a gwneud sens o’r jargon yn help mawr.’

3.9.4 Mae’r ymatebydd yma yn awgrymu mai peth diarwybod oedd y defnydd o’r aelod tîm dwyieithog yn ei phrofiad hi, a bod hynny’n adlewyrchu’r ffaith ei bod hi a’i mam yn byw mewn ardal gymharol gryf o safbwynt y Gymraeg. Mewn sefyllfa o’ fath, mae’n bosib denu gweithlu lleol sydd mewn gwell sefyllfa i adlewyrchu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned gaiff ei gwasanaethu. Ond mae ymatebydd arall yng ngogledd Cymru yn awgrymu ymdrech fwy ymwybodol i sicrhau sgiliau’r tîm dwyieithog yn ei hysbyty leol. Er enghraifft,

‘Mae nifer o nyrsys Cymraeg a di-Gymraeg ar y ward ac roedd pob ymgais yn cael ei wneud i sicrhau fod nyrs ar y shifftiau yn gallu siarad Cymraeg.’

3.9.5 Mae ymatebydd arall yn dilyn yr un thema wrth sôn am yr angen i gynllunio mewn ffordd fwy ymwybodol ar gyfer gwaith tîm dwyieithog yn y meysydd blaenoriaeth a ddaw dan sylw yn yr ymchwil hwn. Mae’n cyfeirio at wasanaethau plant. Ond mae’r hyn sydd ganddo i’w ddweud yn wir am feysydd gwasanaeth arall hefyd.

‘Mae’n bwysig bod rhywun ar y ward plant yn siarad Cymraeg ... Dwi’n gwybod ei fod e’n anodd gyda shiffts a’i fod e’n ystyriaeth ychwanegol ond mae angen dechrau cynllunio yn ymarferol.’

3.9.6 Mae hynny yn berthnasol ledled Cymru, yn yr ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn ogystal ag mewn ardaloedd eraill sy’n fwy Seisnigaidd yn draddodiadol, ond lle gwelir twf erbyn hyn yn nifer y siaradwyr Cymraeg a lle mae’n n hawdd colli golwg ar eu hanghenion a hwythau’n ffurfio cyfran is o’r boblogaeth leol.

3.10 Gwasanaeth Meddygon Teulu

3.10.1 Mae ymatebwyr o dde Powys, Castell Nedd Port Talbot a Gwynedd yn sôn nad yw canolfannau iechyd lleol bob amser yn adlewyrchu proffil y cymunedau y maen nhw’n eu gwasanaethau. Yng Ngwynedd, mae un rhiant yn teimlo’n chwith am apwyntiad meddyg teulu di-Gymraeg mewn cymuned ag 88% yn siarad Cymraeg.⁶ Mae’n dweud fod y meddyg bellach wedi dysgu Cymraeg rhywfaint o Gymraeg ‘wrth fynd’ a bod hynny’n help o safbwynt medru cyfarch a thorri’r garw yn Gymraeg. Gyda’i merch fach, er enghraifft, mae’r meddyg bellach yn medru gofyn, er enghraifft, ‘Ble sy’n brifo? Yr ochr yma? Dwi’n rhoi hwn fan hyn.’

3.10.2 Ond mewn cymunedau fel hon, meddai, byddai’n well pe bai gofyn i weithwyr allweddol ddilyn cwrs iaith dwys cyn dechrau ar eu gwaith. Byddai’n haws wedyn i’r claf a’r meddyg sefydlu perthynas glinigol yn Gymraeg neu’n ddwyieithog o’r cychwyn cyntaf.

3.10.3 Mae person h n yn ne Powys yn disgrifio’r hyn sydd, yn ei thyb hi, yn gyndynrwydd ar ran staff y dderbynfa yn ei chanolfan iechyd leol i ddefnyddio’r Gymraeg.

⁶ Tabl KS25, 2003, Knowledge of Welsh, Llundain: Office for National Statistics

‘Dwi’n ffonio a siarad Cymraeg a gofyn *do you speak Welsh*, a maen nhw’n dweud *not really*. Dy’n nhw ddim yn moyn er bod nhw’n gallu ... Ac ych chi’n mynd mewn i’r feddygfa ac ych chi mewn gwlad arall.’

3.10.4 Os digwydd i chi fynd i’r feddygfa a siarad Cymraeg wrth y ddesg,

‘Ych chi’n teimlo’n ff I ac ych chi’n troi rownd ac mae pobl eraill (yn y dderbynfa) sy’n Gymry yn meddwl bod chi’n gwneud ffys. Ych chi’n gorfod troi rownd a’u wynebu nhw ... ‘Sda fi gynnig mynd fewn ’na. Well ’da fi gymryd y tablets a gadael hi fan’na.’

3.10.5 Mae ymatebydd arall o Gastell Nedd Port Talbot yn disgrifio beth sydd wedi digwydd yn ei ganolfan iechyd yntau. Mae’n dweud fod yr unig feddyg Cymraeg ei iaith wedi gadael a meddyg di-Gymraeg wedi dod yn ei le. Ar ben hynny, nid yw’r meddyg newydd yn dangos fawr o barch at yr iaith. ‘Dyw e ddim hyd yn oed yn ateb fi pan fydda i’n dweud, bore da.’

3.10.6 Ynghlwm â’r sylwadau yma, mae ymatebwyr yn awgrymu’r methiant i gynllunio ar gyfer defnyddio a chynnal gwasanaethau dwyieithog wrth ddarparu gofal iechyd sylfaenol. Awgrymir bod angen rhoi mwy o sylw i gwestiwn sgiliau iaith adeg apwyntio; gall hynny gynnwys hyfforddiant iaith dwys ac addas i’r swydd, ynghyd â mwy o gefnogaeth i staff gofal iechyd ar bob lefel ddatblygu gwell dealltwriaeth am ddefnydd iaith yn eu gwaith gyda chleifion.

3.11 Y ffiniau’n symud – anghenion cynyddol yr ardaloedd trefol

3.11.1 Daeth sawl thema’n amlwg wrth dderbyn tystiolaeth o’r Gymru drefol ac o dde a de ddwyrain Cymru yn benodol. Yn gyntaf, y bwlch rhwng y twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar y naill law a phrinder darpariaeth Gymraeg ar y llaw arall. Gwelir hynny yn arbennig ym maes gwasanaethau plant: y gwasanaeth ymwelwyr iechyd; therapi iaith a lleferydd, a nyrsys ysgol.

3.11.2 Mae rhiant yng Nghaerdydd yn siarad ar ran nifer o ymatebwyr wrth sôn am ei phrofiad o'r gwasanaethau iaith a lleferydd. Ymhlith y themâu cyffredin yn y dystiolaeth gan rieni o Gaerdydd a'r cylch mae'r diffyg gwasanaeth yn Gymraeg, y diffyg ymateb gan asiantaethau, a'r oedi hir sy'n digwydd wrth ddisgwyl am wasanaethau sy'n addas o safbwynt iaith.

'Mae'n mab ni yn wyth oed erbyn hyn. Ond yn 18 mis, doedd e ddim yn siarad ac roedd y clychau'n canu. Aethon ni at y doctor teulu a'r ymwelydd iechyd. Doedd neb ohonyn nhw'n siarad Cymraeg ond o'n ni'n derbyn hynny yng Nghaerdydd.

'Ond pan oedd hi'n dod yn fater o gael gwasanaeth iaith a lleferydd iddo fe, am mai siarad oedd craidd y broblem, ro'n ni'n moyn therapydd Cymraeg ... O'n ni'n hollol *desperate* erbyn i ni weld rhywun. O'n ni'n barod i gymryd unrhyw un. Oedd 'da ni fachgen bach oedd angen y gwasanaeth. A phan ofynnnon nhw, "*Do you want a Welsh speaker because if you do, you'll have to wait another six months,*" oedd dim dewis 'da ni. Fel rhiant, ych chi'n gorfod gwneud y peth iawn trwy dderbyn y gwasanaeth. Dyw e ddim yn ddewis; ych chi'n mynd i gymryd beth sy' 'na. Ych chi'n cael cynnig ond dyw e ddim yn gynnig.'

3.11.3 Dim ond yn ystod y chwe mis diwethaf mae'r teulu wedi derbyn therapydd sy'n siarad Cymraeg. Yn ystod y chwe blynedd cyn hynny fe'i ystyrid yn angenrheidiol iddyn nhw dderbyn gwasanaeth arbenigol oherwydd cyflwr ei mab ar y Sbectrwm Awtistig. Doedd dim modd cael y gwasanaeth arbenigol hwnnw yn Gymraeg. Maen nhw'n dyfalu tybed beth fyddai'r effaith pe bydden nhw wedi derbyn gwasanaeth yn Gymraeg ynghynt,

'Dechreuodd e wneud cynydd pan oedd e tua 5 oed ... dy'n ni ddim yn gwybod a fydde hynny wedi digwydd ynghynt gydag *input* Cymraeg. Dy'ch chi ddim yn gallu cwyno achos mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

‘Roedd unigolion yn ymddiheuro ond doedd y system ddim yn ’nabod ei angen e ... Yr agwedd oedd, ry’n ni wedi ymddiheuro, felly allwn ni anghofio fe.’

3.11.4 Mae’r dystiolaeth gan rieni yn awgrymu ar y cyfan eu bod nhw’n fwy llafar a chadarn yn herio’r bylchau mewn gwasanaeth. Ond i ddefnyddwyr yn y grwpiau eraill, mae peryg eu bod yn dioddef ddwywaith, ar y naill law yn ddefnyddwyr gwasanaeth bregus, sydd weithiau wedi eu hymylu yn gymdeithasol, ac ar y llaw arall yn siaradwyr iaith leiafrifol, yn byw mewn cymunedau sy’n aml â niferoedd arwyddocaol ond canrannau isel o siaradwyr Cymraeg. Yn aml iawn, mewn cymunedau o’r fath, does dim llygad na chlust i gydnabod yr anghenion iaith sydd ganddyn nhw.

3.11.5 Gwelwyd hynny yn glir iawn mewn cyfweiliad gyda pherson h n ag anabledau dysgu yn Abertawe. Wedi ei magu mewn teulu Cymraeg ei iaith mewn pentref ar gyrion Abertawe, erbyn hyn mae’n byw mewn cartref gr p ac yn mynychu canolfan ddydd. Saesneg yw’r iaith mae’n ei defnyddio’n bennaf o dydd i ddydd. Mae’n sôn sut roedd hi’n arfer gallu siarad Cymraeg yn rheolaidd â pherson arall oedd yn mynd i’r ganolfan ddydd. Mae e newydd farw. Yn ei thystiolaeth, mae’n cyfleu’r teimlad ei bod wedi ei gwahanu wrth ei hiaith a’i chymuned.

‘Mae’n neis siarad Cymraeg. Mae’n gartrefol siarad Cymraeg ... Mae’n rhwyddach siarad Cymraeg ... Bydde fe’n gwneud *lot* o wahaniaeth.’

3.11.6 Wrth drafod ag aelod o’r staff yn y ganolfan ddydd, gwelwyd nad oes darpariaeth yno ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae’r awdurdod lleol, meddid, yn datgan y dylid darparu gwasanaethau yn iaith y defnyddiwr gwasanaeth, ‘os yw’r defnyddiwr yn gofyn am hynny.’ Mae’n ymddangos nad yw disgwyl i ddefnyddwyr

bregus fynegi a chreu'r lefel yma o alw yn sylfaen briodol ar gyfer datblygu gwasanaeth.

3.11.7 Mae dyn ifanc sy'n byw ar aelwyd Gymraeg ei hiaith, yn defnyddio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu yn Abertawe, ac yn byw mewn ardal Gymraeg ei hiaith i raddau helaeth yng Nghwm Tawe, yn dweud ei fod yn falch o'i sgiliau dwyieithog, a'i allu i siarad Saesneg a dysgu ambell air o Gymraeg i'r staff yn ei ganolfan ddydd. Yn ei dystiolaeth, mae'n ymddangos nad oes fawr o ddarpariaeth yn Gymraeg ar ei gyfer, naill ai yn y ganolfan ddydd na'r Coleg Addysg Bellach y mae'n mynd iddo. Mae'n dweud, 'fi yw'r unig un sy'n siarad Cymraeg.'

3.11.8 Mae ei dad yn codi cwestiwn am bolisiau staffio a recriwtio yn y ddau le,

'Ydyn nhw'n gwahodd siaradwyr Cymraeg? Ydyn nhw'n gofyn am sgiliau (iaith)? Bydde fe'n neis iawn os byse rhai o'r staff yn siarad Cymraeg.'

Roedd y dyn ifanc yma, a gwraig ifanc ag anableddau dysgu mewn rhan arall o dde Cymru, wedi derbyn eu haddysg gynradd ac uwchradd yn Gymraeg. Ond ar ôl gadael ysgol, mae'n ymddangos na chawson nhw fawr o gyfle i dderbyn addysg a hyfforddiant pellach yn Gymraeg. Mae hynny'n anghyson â'r ddarpariaeth addysgol i oedolion ifanc eraill yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg. Ar y cyfan, mae ganddyn nhw'r dewis o barhau i dderbyn cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn 19 oed ac yn h n.

3.11.9 Mae sefyllfa'r siaradwyr ifanc mwy ynysig yma yn wahanol i brofiad dau ddyn ifanc ag anableddau dysgu sy'n byw yng Ngheredigion, y naill yn gweithio mewn sefydliad mawr lle defnyddir llawer o Gymraeg yn Aberystwyth, a'r ddau yn byw gyda'i gilydd ac yn gallu siarad Cymraeg â'i gilydd bob dydd. Mae'r enghraifft hon yn awgrymu bod darparwyr gofal cymdeithasol yn y Gymru drefol yn wynebu heriau penodol o safbwynt ceisio sicrhau bod y cyfleoedd mwy

organig, ac *ad hoc* o bosib, sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg ag anableddau dysgu mewn rhannau o'r Gymru wledig hefyd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth yn fwy cyffredinol.

3.11.10 Yr eironi i un set o rieni yw'r ffaith eu bod nhw wedi llwyddo i dderbyn lefel o ymwybyddiaeth am yr iaith a darpariaeth yn Gymraeg y tu allan i Gymru na lwyddon nhw i'w ffeindio yng Nghymru,

'Mae agwedd iach at y Gymraeg yno. Yn amlach na pheidio, siaradwyr Cymraeg sy'n ateb y ffôn ... Mae'n teimlo'n rhyfedd iawn bod yn rhaid i X groesi'r ffin i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg am y tro cyntaf mewn 20 mlynedd.'

Mae'n nhw'n dweud fod y coleg i bobl ag anableddau dysgu yn Swydd Amwythig yn cyflogi siaradwyr Cymraeg ac yn cynnal clwb wythnosol i fyfyrwyr Cymraeg.

3.11.11 Mae ymatebwyr yn cyfeirio at set isel o ddisgwyliadau am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft, mae person h n yn sôn am ei apwyntiadau rheolaidd mewn clinig llygaid yn Rhondda Cynon Taf.

'Does neb wedi gofyn i mi erioed am y Gymraeg a dydw i ddim wedi dweud dim. Byddai'n well gen i wrth gwrs tase'r gwasanaeth yn Gymraeg – byddai'n wahanol taswn i'n byw ym Mangor neu yng Ngwynedd. Dydw i ddim yn disgwyl yn y rhan hon o Gymru ... Mae'n wahanol yn y gogledd wrth gwrs.'

Wedi ei eni a'i fagu yng ngogledd orllewin Cymru, mae'n ei ddisgrifio ei hun fel 'rhywun oedd heb air o Saesneg nes oedd o'n 10 oed. Dwi'n dal i feddwl yn Gymraeg.'

3.11.12 Yn ôl un person h n sy'n byw yng Nghasnewydd,

'Nid oes un meddyg teulu yng Nghasnewydd yn siarad Cymraeg er bod yn y ddinas hon oddeutu 13,000 o siaradwyr Cymraeg, felly 13,000 o gleifion. Mae hynny'n dangos bod mwy o siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd nac yng Nghaernarfon ond mae'r safonau yn hollol wahanol ... Mae angen dechrau apwyntio rhai staff sy'n gallu siarad Cymraeg *pro rata* â'r boblogaeth Gymraeg.'

3.11.13 Mae rhiant yng Nghaerdydd yn trafod y peth o safbwynt anghydraddoldeb ac yn dweud,

'Mae'n henghraiff ni'n dangos bod methiant i ddarparu gwasanaeth iechyd Cymraeg yn camwahaniaethu mewn modd real yn erbyn y mwyaf bregus yn ein cymunedau: plant, yr henoed a chleifion. Ni dderbyniodd ein merch ofal iechyd priodol am ei bod yn dod o aelwyd Gymraeg. Mae'n rhaid prif-ffrydio'r Gymraeg fel ystyriaeth cydraddoldeb.'

3.11.14 Mae defnyddiwr gwasanaeth yn Wrecsam yn sôn am ei gysylltiad tymor hir â darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl. Ar hyd y blynyddoedd, dim ond un cof sydd ganddo o dderbyn gofal yn Gymraeg, a hynny gan ddau nyrs adeg ei gyfnod cyntaf yn glaf seiciatrig yn Ninbych yn 1961. Ond bellach mae ganddo weithiwr cefnogi sy'n siarad Cymraeg a hynny drwy fudiad iechyd meddwl trydydd sector, 'Mae'n dod o Rhos ac yn siarad Cymraeg fath â fi.' Wrth sôn am arwyddocâd derbyn gwasanaethau yn Gymraeg, mae'n dweud bod

'... rhywbeth cynhesol mewn cael eich trin yn Gymraeg. Dech chi'n fwy rhydd i ddeud sut dech chi'n teimlo yn Gymraeg.'

3.11.15 Mae defnyddiwr gwasanaethau iechyd meddwl arall, sydd hefyd yn byw yng ngogledd ddwyrain Cymru, yn disgrifio'r camau y gwnaeth yntau eu cymryd i

geisio dod o hyd i ddarpariaeth yn Gymraeg. Nawr yn 30 oed, mae'n dweud ei fod wedi derbyn gwasanaethau seiciatryddol ers ei arddegau cynnar ac nad yw erioed wedi derbyn unrhyw elfen o hynny yn Gymraeg er yn dweud mai '... Cymraeg yw iaith y teulu i gyd.'

3.11.16 Ar hyd y blynyddoedd, wrth godi'r pwnc am ddarpariaeth Gymraeg - boed hynny trwy seiciatrydd, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr cefnogi - dywed mai'r ateb cyson yw y byddai hynny yn llawer haws pe byddai'n byw yng Ngwynedd. Felly, y tro diwethaf iddo fod yn sâl, mae'n dweud,

'Es i i Fangor. Ro'n i wedi mynd i Fangor dan yr argraff byswn i'n gweld Cymro yno. Ond ar ôl aros am dair awr, gyrru fi nôl i Glan Clwyd ddaru nhw.'

Hyd yn oed os nad oes modd cael seiciatrydd sy'n siarad Cymraeg, meddai, byddai'n dal wrth ei fodd yn derbyn peth cefnogaeth yn Gymraeg.

3.12 Colli iaith

3.12.1 Mae'r dystiolaeth gan deuluoedd i bobl h'n yn awgrymu bod tuedd mewn cartrefi gofal a nyrsio i anwybyddu proffil iaith y trigolion. Caiff hynny ei grynhoi gan un person sy'n sôn am ei mam oedrannus, gwraig yn ei 90au sydd wedi symud i gartref nyrsio yn y sector preifat yng Ngheredigion. Wrth wneud hynny, meddai, 'Mae hi wedi symud o fyd Cymraeg i fyd Saesneg dros nos.'

'Pan mae mam yn dechrau siarad Cymraeg â nhw, maen nhw'n dweud, "*No, no, speak English with me.*" Dim ond Saesneg mae mam yn glywed. Mae e'n rhwystredigaeth i fi ... Nawr, mae hi'n dechrau siarad Saesneg â fi ambell waith. Mae hi wedi mynd o fod yn uniaith Gymraeg i fod nawr yn rhywun sy'n siarad gyntaf yn Saesneg.

‘Es i mewn â siart gyda llun a geiriau, gyda geiriau fel cysgu, codi, molchi, cribo gwallt, sebon. Roedd e’n dangos y llun a’r geiriau ac yn gweud wrthoch chi sut i ddweud y gair yn ffonetig ... Ond wy ddim yn siar faint maen nhw’n ei ddefnyddio fe.’

3.12.2 Un o’r pethau tristaf, meddai hi, yw’r ffaith na all gofal cyfrwng Saesneg ‘... fynd â mam nôl i’r hen ddyddiau, yr unig beth mae hi’n gallu siarad amdano, a dweud y gwir.’ Yn wraig ffarm yng nghefn gwlad Ceredigion, fe adeiladwyd ei byd ar sail iaith a diwylliant y gymdogaeth o’i chwmpas.

3.12.3 Mae cyfleoedd yn cael eu colli, meddai hi, am fod yr adloniant a drefnir i breswylwyr yn tueddu i fod yn amhriodol, yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol, i bobl fel ei mam. Er enghraifft, pan mae’r caplan yn ymweld, maen nhw’n canu emynau Saesneg, a ‘... dyw Mam ddim yn gwybod y geiriau.’ Mae’n crynhoi’n gellweirus trwy sôn am ymweliad gan chwaraewr sacsoffon, ag un o’r preswylwyr yn mynegi ei hanfodlonrwydd trwy ddweud, ‘... *haven’t you got a record of Jac a Wil?*’

3.12.4 Mae’n cyferbynnu hynny â’r sefyllfa yn y cartref preswyl yng ngofal yr awdurdod lleol ble roedd ei mam yn arfer byw. Yno, roedd y cysylltiad â’r gymuned leol wedi ei ddatblygu yn da, meddai.

‘... roedd pawb yn nabod i gilydd; o’n nhw’n arfer cael gwasanaeth Cymraeg bob prynhawn dydd Sul. Ond gallai’r cartre ’ma fod ynghanol Birmingham neu Manchester.’

3.12.5 Mae perthynas arall yn crynhoi’r oblygiadau i bobl hyn sy’n colli iaith ar ôl i’r Gymraeg fod yn iaith graidd, os nad yn unig iaith, iddyn nhw ar hyd y blynyddoedd. Yn oedrannus ac yn fregus ac yn ffeindio’ch hun mewn lle anghyfarwydd,

‘Rydych yn cael eich tynnu o’r byd normal i ryw fyd swrreal bron lle na fedrwch chi ddibynnu ar normau bywyd bob dydd i’ch cynnal. Cynyddu’r ymdeimlad o ddieithrwch a wna derbyn gofal cyfan gwbl drwy’r Saesneg.’

3.13 Iaith, asesu a gofal – her dementia

3.13.1 Mae gofalwyr a pherthnasau yn cyfeirio at swyddogaeth ganolog iaith wrth ofalu am bobl â dementia. Mae gofalwr yn sôn am fynd â’i pherthynas i gadw apwyntiadau rheolaidd mewn clinig cof ble roedd yr asesiadau yn tueddu i gael eu cynnal yn Saesneg.

‘Oedd e’n *horrible*. O’n i ddim eisie mynd. O’n i’n ei chornelu hi. O’n i’n gorfod *pino* hi lawr. Doedd e ddim yn addas i ni. O’n i’n teimlo mai jyst rhif o’n ni. Doedd dim perthynas o gwbl. Oedd hi’n mynd yn fwy *agitated*. ... Achos bo’ fi yn y canol, o’n i’n gorfod egluro ac o’n nhw’n edrych arna i fel tasen i’n twyllo.’

Mae’n cyferbynnu hynny ag apwyntiadau mwy diweddar â seicolegydd oedd yn siarad Cymraeg,

‘Oedd hi’n egluro’n syml, yn defnyddio Cymraeg llafar gwlad ... Yr un peth oedd y diagnosis ond o’n i’n teimlo’n wahanol.’

Y gwahaniaeth hanfodol, meddai hi, oedd bod rhannu’r un iaith a’r ddealltwriaeth ddiwylliannol sydd ynghlwm â hynny, yn help i ffurfio perthynas glinigol.

3.13.2 Mae ymatebwyr eraill yn cyfeirio at asesiadau sy’n amhriodol o safbwynt iaith a diwylliant. Er enghraifft, mae un gofalwr yn dweud bod gofyn i’w fam ganu *God Save the Queen* yn rhan o’r asesiad ar ei chof, gan awgrymu pe byddai gofyn iddi adrodd geiriau *Hen Wlad fy Nhadau*, y byddai ei hymateb gryn dipyn yn wahanol. Ac mae perthynas arall yn sôn am y ffordd y gofynnwyd i’w dad gofio cyfeiriad yn Guildford. Mae’n bosib y byddai ei ymateb wedi bod yn fwy

pendant pe gofynnwyd iddo am gyfeiriad yn ei gymdogaeth ei hun yn Nhregaron, meddai.

3.13.3 Mae sawl ymatebydd yn sôn am y ffordd y gall defnydd iaith naill ai gynhyrfu neu dawelu'r person â dementia. Mae merch yn sôn am yr effaith ar ei thad,

'Roedd dau berson yn siarad Cymraeg ar y ward a phan oedd un o'r rheiny'n digwydd bod ar shifft, roedd e'n tawelu. Fydde fe'n eistedd, ond fel arall roedd e'n parado ybyti'r lle. Mae e'n hala'r cyflwr lot yn waeth os na allwch chi gyfathrebu yn eich iaith gyntaf. Os nag oedd Cymry ar y shifft, oedd e'n mynd yn wyllt. Oedd e'n edrych yn syn. Oedd ei freichiau fe'n mynd i gyd.'

3.13.4 Mae'n siarad ar ran gofalwyr a pherthnasau eraill wrth egluro pwysigrwydd gofal ieithyddol addas i'w thad. 'Y peth ola ych chi'n ddysgu yw'r peth cynta i fynd gyda dementia,' meddai. Felly, i'w thad - ac i siaradwyr Cymraeg eraill y derbyniwyd tystiolaeth amdanynt - fe ddiflannodd ei sgiliau yn Saesneg yn llwyr wrth i'r dementia waethygu.

'I drio cadw'i hunan barch, roedd hi mor bwysig iddo fe ddefnyddio a chlywed ei iaith ei hun.

Heb hynny, roedd ei rwystredigaeth a'i aflonyddwch yn cynyddu ac 'Fe welon ni fod iaith a gofal yn mynd law yn llaw.'

3.13.5 Mae gofalwr arall yn cyfeirio'n lled sinigaidd at y ddolen gyswllt rhwng iaith, asesu a darparu gwasanaeth.

'Pan dwi'n mynd â X i gael ei hasesu, maen nhw'n gofyn cwestiynau ac mae'r mynediad at wasanaeth yn dibynnu ar lefel dy allu di wrth gwrs.

Felly, os wyt ti'n cael dy asesu yn Saesneg, fel sy'n digwydd ar y cyfan, gwaetha oll fydd lefel yr asesiad a'r mynediad at wasanaeth yn haws.

'Mae X yn fwy rhugl yn Gymraeg o hyd; mae rhoi brawddegau at ei gilydd yn haws yn Gymraeg ... Mae'r geiriau'n pallu yn Saesneg, y frawddeg yn sychu.'

3.13.6 Mae'r holl ymatebwyr yma yn sôn am y profiad o dderbyn gwasanaethau yn y Gymru wledig, yn y gorllewin. I bob un, mae bylchau yn y gwasanaethau cyfrwng Gymraeg a heriau cyson i ofalwyr a pherthnasau sy'n awyddus i gynnal urddas defnyddwyr. Y bwch rhwng anghenion go iawn y defnyddiwr ac union lefel y gwasanaeth sydd ar gael iddo mewn cartref gofal *EMI* mawr, cyfrwng Saesneg, yng ngorllewin Cymru sydd dan sylw gan y perthynas yma,

'Mae e fel anifail mewn caetsh. Yn aml dwi'n gorfod mynd mewn i'w dawelu fe, ei ganmol e. Oherwydd y dementia difrifol mae angen gofal *one to one* arno fe yn Gymraeg.'

3.14 Iaith ac Asesu

3.14.1.1 *Gwasanaethau Plant*: Mae rhieni mewn sawl rhan o'r wlad yn trafod yr anawsterau wrth geisio derbyn asesiadau clyw a golwg yn Gymraeg. Mae un rhiant o Wynedd yn sôn am y profiad o fynd â'i mab bychan i weld optometrydd, ,

'Doedd ganddi ddim gair o Gymraeg. Dim cliw. A methodd hi ag asesu achos bod 'da hi ddim Cymraeg.'

3.14.1.2 Mae rhieni eraill yn sôn am y broses o geisio cyfieithu nôl a mlaen rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r plentyn. Profiad felly gafodd y rhiant yma o Wynedd sy'n mynd â'i merch am brofion llygaid rheolaidd. Mae'n disgrifio proses gyfieithu oedd yn rhwystredig i'r plentyn a'r gweithiwr.

‘O’n i’n ffeindio hyn yn anodd ac yn y diwedd gwnes i gais i gael symud i’r clinig ym Mhwllheli gan feddwl efallai byddai’r arbenigwyr yn deall yr *issues* iaith yn well achos bod canran uchel o siaradwyr Cymraeg ym Mhen Ll n.’

Felly, rhoddwyd y pwysau i adnabod yr anghenion iaith a dod o hyd i wasanaethau addas yn solet ar ysgwyddau’r rhiant; ni roddwyd sylw iddo ar lefel sefydliadol.

3.14.1.3 Mae rhiant arall yn cyfeirio at beryglon cyfieithu ac mae nifer o ymatebwyr yn codi pwyntiau tebyg am gywirdeb asesu trwy gyfieithu. Dyma sut mae hi’n disgrifio’r broses,

‘Roedd hi (yr awdiolegydd) yn gofyn cwestiwn, o’n i’n cyfieithu i X ac oedd hi wedyn yn dibynnu arna i i gyfieithu iddi hi. Roedd ’na lot o le yn y broses yna i gamddeall neu gamddechongli ... Dwi ddim yn gwybod a oedd e’n asesiad cywir neu beidio.’

3.14.1.4 Mae rhieni mewn rhan arall o Gymru yn sôn am y profiad gawson nhw wrth fynd â’i merch fach i gadw apwyntiadau mewn clinig awdioleg rhwng mis Medi 2007 a mis Gorffennaf 2009.

‘Yn ystod y cyfnod hwnnw fe welon ni dri doctor. Roedd y doctor cyntaf wy’n cofio yn gofyn pethe fel, “*Can you hear this in the front of your ear, at the back of your ear?*” Doedd X, fydd yn 7 ym mis Mai eleni, ddim yn ei ddeall e o gwbl ac o’n i’n gorfod trio cyfieithu.’

Flwyddyn a hanner yn ddiweddarach, mae’r trydydd meddyg yn cydnabod nad oedden nhw’n gallu asesu’r ferch fach yn Saesneg ac mae’n trefnu iddi gael ei chyfeirio at gydweithiwr oedd yn siarad Cymraeg.

‘Roedd e’n wastraff arian ac adnoddau. Collon ni flwyddyn a hanner; o’n ni naws callach ac o’n ni’n rhwystredig. O’n ni yn y niwl.’

Ers y cyfeiriad at feddyg sy’n medru’r Gymraeg, mae’r rheini’n teimlo bod pethau wedi symud. Mae ei merch wedi derbyn profion priodol; mae wedi dechrau gwisgo cymorth clyw, ac wedi derbyn cefnogaeth ychwanegol yn yr ysgol. Iddyn nhw, yr asesiad cyfrwng Cymraeg oedd y trobwynt.

3.14.1.5 Mae rhieni i blentyn saith oed sydd ag anableddau dysgu ac yn byw yng Ngheredigion yn disgrifio’r gwasanaeth y maen nhw wedi ei dderbyn, gwasanaeth difwlch i raddau helaeth. Mae’r fam yn sôn am y berthynas â’r paediatregydd sy’n siarad Cymraeg, er enghraifft,

‘Os bydde fe’n siarad Saesneg, bydde fe ond yn siarad â ni. Fydde dim perthynas gydag e â X. Mae e’n cael mwy mas o X. Mae e’n gallu asesu fe’n well. Sdim Saesneg gyda X.’

3.14.1.6 Mae hynny wedi bod yn help mawr i ffurfio perthynas glinigol. ‘Mae e’n nabod X ac mae X yn ei nabod e. Mae hynny’n gwneud gwahaniaeth mawr,’ meddai’r fam. Mae hefyd yn sôn pa mor werthfawr yw cael therapydd iaith a lleferydd a gweithiwr allweddol, y ddwy yn siarad Cymraeg. Yn ogystal â bod hyn yn sicrhau asesiadau cadarnach, mae’n dweud hefyd

‘Mae e lot yn rhwyddach i ni. Wy’n fwy rhugl yn Gymraeg. Mae e’n teimlo’n fwy personol. Ych chi’n gallu sôn am eich gofidiau.’

3.14.2 *Gwasanaethau ymwelwyr iechyd*

3.14.2.1 Mae rhieni mewn sawl rhan o Gymru yn dweud nad oes modd iddyn nhw dderbyn gwasanaeth ymwelydd iechyd yn Gymraeg. I riant yn Llanelli, fe

gododd hynny gwestiynau am ansawdd a dilysrwydd yr asesiad ar ei phlentyn. Er enghraifft,

‘Un iaith oedd gan ein mab hynaf nes iddo fynd i’r ysgol ... Roedd hyn yn achosi problemau. Doedd e ddim yn deall unrhyw beth a ddywedai’r ymwelydd iechyd wrtho. Felly o ran asesu, ffug asesu ydoedd a’r ymwelydd iechyd yn dibynnu ar yr hyn roeddwn i yn ei ddweud wrthi ... Dyw’r plentyn ddim yn cael chwarae teg o ran yr asesu. Dyw e ddim yn gyfforddus. Dwi’n gorfod cyfieithu nôl a mlaen. A dweud y gwir, rych chi’n gorfod dibynnu ar allu rhiant i sylwi ar broblemau.

‘Bellach mae gennym ferch fach 27 mis oed. Pan es i weld yr ymwelydd iechyd ar gyfer yr asesiad dwy flwydd oed, esboniais wrthi ’mod i’n poeni am nad oedd hi’n siarad rhyw lawer. Ei hymateb oedd, *“Yes, but she’s learning two languages. That usually causes a bit of delay”* ... A phan wnes i geisio esbonio mai un iaith yr oeddem yn ei chyflwyno iddi ar hyn o bryd, sef Cymraeg, ni allai amgyffred hynny o gwbl. Felly, fi oedd yn gorfod mynnu ei bod hi’n cael ei chyfeirio at therapydd iaith a lleferydd. Fi oedd yn asesu, nid hi.’

3.14.2.2 Themâu tebyg sy’n cael eu trafod gan riant o Gonwy; roedd disgwyl iddi hithau hefyd gyfieithu wrth i’r ymwelydd iechyd asesu ei merch.

‘Mi fyswn i wedi medru dweud unrhyw ateb yn ôl wrth yr ymwelydd iechyd, a bysa hi ddim callach os byswn i wedi dweud y gwir ateb neu beidio. Wrth gwrs, wnes i ddim, ond beth yw’r pwynt o brofi ac asesu plentyn a’r person proffesiynol yn methu gwneud y prawf asesu yn gywir oherwydd eu bod nhw ddim yn siarad yr un iaith?’

I'r rhiant yma, mae'r broses yn codi cwestiynau am ddilysrwydd yr asesiad â lefel asesiad ei merch heb newid rhwng un asesiad blynyddol a'r llall. Mae'n crynhoi,

'Mi ro'n i'n eithaf siomedig ar ddau lefel. Yn gyntaf, fod yna ddim ymwelydd iechyd oedd yn siarad Cymraeg ar gael (ac o beth ydw i'n ddeall does yna ddim un ymwelydd iechyd Cymraeg yn ein hardal ni ers i'r unig un ymddeol yn 2008). A dau, fod hi yn cymryd y bysa fy merch yn siarad Saesneg.'

3.14.2.3 I'r ddau riant yma, ac i rieni eraill a roddodd dystiolaeth, mae'r profiad gawson nhw yn eu procio i godi cwestiynau am sawl peth: yr angen i recriwtio a hyfforddi mwy o ymwelwyr iechyd sy'n medru'r Gymraeg; yr angen i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus ymwelwyr iechyd er mwyn iddyn nhw fedru deall y broses o gaffael iaith i blant bach uniaith yng Nghymru; a'r angen i ailedrych ar y ffordd y caiff adnoddau dynol eu dosrannu a'u rheoli – ar lefel gymunedol yn hytrach na thrwy'r practis meddygol lleol – er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu dwyieithog presennol, yn ôl un riant.

3.14.3 Gwasanaethau amddiffyn plant

3.14.3.1 Mae ymatebydd o dde Cymru yn trafod ei brofiad fel rhiant i faban a fu'n destun ymchwiliad amddiffyn plant.

'Ar ôl i'r babi gael ei geni, daeth yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar y *scene*. Roedd hi'n amlwg fod gan y mhartner i broblemau yn y gorffennol. Oedd rhaid i'r babi fynd ar y *Child Protection Register* ... Roedd popeth yn ein perthynas ni yn Gymraeg. Ond yn y *core group meetings*, pan o'n ni'n llunio'r Cynllun Gofal, oedd y cyfan yn Saesneg. Ar y dechre, wedes i ddim byd. Roedd hi'n amlwg ein bod ni'n siarad Cymraeg achos o'n ni'n siarad Cymraeg â'n gilydd yn y *meetings*. Oedd e'n amser anodd i fi a wnes i ddim gofyn am y Gymraeg yn syth. Oedd rhai misoedd wedi mynd heibio cyn i fi godi'r peth. Nes i esbonio bod angen i ni drafod pethe

dwys, personol yn Gymraeg. Ond aethon nhw (y gweithiwr cymdeithasol) yn *defensive* a gweud “*I don’t speak Welsh.*” Wy ddim yn gofyn i chi siarad Cymraeg, wedes i. Ond wy moyn i chi ystyried a darparu ar ein cyfer ni.’

3.14.3.2 Mae’r rhiant yma’n awgrymu nad oedd gan y gweithiwr fynediad clir at weithdrefn neu ganllawiau asiantaeth fyddai’n ei gwneud hi’n bosib iddi ymateb yn wrthrychol i gonsyrn y rhiant. Roedd hi wedi ei gadael yn noeth, yn gorfod ymateb i’w sylwadau yn oddrychol ac yn amddiffynnol. Mae’n mynd yn ei flaen i wneud cysylltiad pwysig rhwng iaith yr asesu a iaith y berthynas a’r amgylchiadau oedd yn cael eu hasesu,

‘Oedd y pethe o’n ni’n trio eu trafod yn y cyfarfodydd wedi digwydd yn Gymraeg – y teimpladau, popeth i gyd yn Gymraeg. Oedd y sefyllfa yr un mwyaf anodd i fi yn fy mywyd. Mae Saesneg fi’n iawn ond pan ych chi’n gyfarwydd â sefyllfa yn Gymraeg – y teimpladau, y dadleuon i gyd yn Gymraeg, ac ych chi’n gorfod neud hynny dan bwysau mawr, mae e’n anodd ofnadwy yn Saesneg.’

3.14.3.3 Mae’n awgrymu y byddai’r broses asesu wedi bod yn haws iddo yn Gymraeg ac y byddai hynny wedi rhoi gwell dealltwriaeth o ddeinameg ei berthynas a’r oblygiadau i’r plentyn. Byddai wedi rhoi iddo elfen o reolaeth mewn amgylchiadau oedd ymhob ffordd arall yn ei amddifadu o b er,

‘Byse fe’n well ‘da fi wneud yr holl beth yn Gymraeg. Dwi’n meddwl byse fe’n haws ... Bysen i’n gallu agor lan yn haws. Trafod yn haws. Pa bynnag iaith oedd yn cael ei defnyddio, oedd y teimplad bod pobl yn dod mewn i nghartre i, i nheulu fi, yn anodd. Ond os o’n nhw’n gallu siarad iaith o’n i wedi dewis, byse pethe bach yn llai *intrusive*.’

3.14.4 Deall a Chael eich Deall

3.14.4.1 I berson h n sy'n mynd i'r ysbyty adeg argyfwng, mae'r gallu i siarad Cymraeg â chriw'r ambiwlans a'r nyrs yn yr uned ddamweiniau yn bwysig. Roedd hi'n ei chael hi'n haws esbonio union natur ei phoen yn Gymraeg a hynny'n ei gwneud hi'n haws hefyd cael diagnosis, meddai hi.

'Oedd hi'n haws esbonio yn Gymraeg. Er mod i'n siarad Saesneg â ng r bob dydd, ych chi'n gallu disgrifio fel ych chi'n teimlo yn fwy pendant yn Gymraeg. O'n i'n gallu dod o hyd i'r union air. Nid poen oedd e ond pigyn ac o'n i'n gallu dweud yn union ble oedd e, o dan yr asen. Ac o'n i'n gallu dweud hefyd mod i'n teimlo'n chwil ... Mae poen neu *pain* yn rhywbeth sy'n effeithio ar ardal ehangach ond mae pigyn mewn un man, a'r unig air fydde gyda fi ar gyfer chwil oedd *faint* a dyw hynny ddim yr un peth.'

3.14.4.2 Ond i ofalwr oedd yn mynd gyda'i pherthynas i gadw apwyntiad seiciatryddol, roedd iaith yn rhwystr i'r deall a'r asesu.

'Nid jyst y Saesneg odd yn anodd iddo fe ond y math o Saesneg odd yn cael ei defnyddio. Odd gyda'r doctor *checklist* ac oedd e'n gofyn un cwestiwn ar ôl y llall, "*What is your alcohol intake?*" "*Beth mae e'n weud?*" "*Mae e'n gofyn faint wyt ti'n yfed?*" ... Wedyn, "*Why ar you feeling suicidal?*" Ac o'n i'n gorfod gweud wrtho fe, mae e'n gofyn pam wyt ti'n moyn neud niwed i ti dy hunan?'

Roedd yno fwllch, a doedd y naill na'r llall yn deall ei gilydd. Yn hytrach na bod iaith yn erfyn therapiwtig, mae'n rhwystr. Ac yn ôl y gofalwr,

'Doedd dim perthynas 'na o gwbl ... weles i e'n cau. Ac erbyn diwedd y *consultation*, 'na gyd odd gyda ni odd y tablets. Aethon ni ddim nol. Odd e'n ddi-ddiben.'

3.14.4.3 Cododd rhwystrau tebyg i deulu oedd yn mynd â'i mab bychan i gael ei asesu gan ffisiotherapydd; roedd y teulu a'r gweithiwr yn defnyddio eu hail iaith.

'Oedd e'n anodd iddo fe drïo explainio beth oedd e'n moyn i ni wneud. Oedd X yn mynd yn *frustrated*. Odd e ddim eisiau bod 'na. Odd *frustration all round*. Odd e'n ffaelu expresso'i hunan ac oedd X ffaelu deall a doedd X ddim yn moyn mynd i weld e ... Odd e i gyd achos iaith, achos o'n ni'n cael trafferth deall beth o'n ni fod i wneud gyda X ... Os nag o'n ni'n ei ddeall e'n iawn, odd yr *instructions* o'n i'n rhoi i X yn rong ac oedd e'n dweud, *no, no, not like that ...* a stopon ni fynd.'

3.14.4.4 Mae ymatebydd arall yn awgrymu bod peryg camddeall neu gamddechongli mewn ffyrdd fwy cynnil a llai llythrennol hefyd pan fo asesiad yn digwydd trwy gyfrwng ail iaith. Mae'n pwysu a mesur ei phrofiad fel mam,

'Pan mae rhywun yn gofyn cwestiynau i'ch plentyn bach Cymraeg yn Saesneg, gall nifer o bethau ddigwydd. Un peth ydi gall y plentyn droi ei ben i sbïo ar ei fam. Mewn rhai achosion mae hyn yn gallu cael ei gamddechongli, neu golygu fod gan y plentyn ofn siarad drosto'i hun ac yn edrych am ganiatâd i ddweud rhywbeth rhag ofn iddo gael andros o ddeud y drefn am ddeud rhywbeth o'i le ar ôl mynd adre.'

Mae'n mynd yn ei blaen i ddisgrifio ei phrofiad hi a'i phlentyn,

'Er mwyn iddo fedru deall, mi oeddwn i'n cyfieithu yr hyn roedd y doctor neu'r nyrs wedi ei ofyn ac wedyn yn cyfieithu yn ôl i'r doctor beth oedd X wedi ei ddweud ... Mae'n bosib nad ydyn nhw'n gallu pigo i fyny be ddylen nhw tasa 'na rywbeth mawr o'i le, neu'n waeth i ni, yn pigo rhywbeth i fyny sydd ddim yna.

'Peth arall sy'n bosib ydi mod i'n dod drosodd fel un o'r rhieni *overpowering* 'ma sy'n siarad dros ei phlant. Petai'r sgwrs yn Gymraeg, mi fyswn i'n annog X ei hun i ateb y sawl sy'n gofyn y cwestiwn. Fyddai hynny'n creu argraff wahanol iawn ohona i fel rhiant. Tasa'r meddygon yn meddwl mod i'n fam *overpowering*, fe allai hyn arwain iddyn nhw fy ngweld i mewn goleuni gwahanol ac felly fy nhrin i'n wahanol – yn fwy negyddol efallai.'

3.15 Iaith a pherthynas – yn fwy na geiriau

3.15.1 I nifer o ymatebwyr, mae cael defnyddio dewis iaith yn aml yn bwerus o safbwynt creu agosrwydd a pherthynas broffesiynol nes. Dyma sut mae un person h n yn disgrifio'r berthynas â'i meddyg teulu,

'Pan bo chi'n dost, mae siarad Cymraeg yn gwneud gwahaniaeth. Mae agosatrwydd 'na ... 'Na enghraifft i chi nawr. O'n i'n moyn *asprins coated* achos oedd y lleill yn hala fi'n dost. Nawr, o'n i'n gallu dweud wrth Dr. X yn ysgafn, ych chi naill ai'n rhoi'r rhai *coated* i fi neu wy ddim yn mynd i'w cymryd nhw o gwbl! Gyda Dr. X o'n i'n gallu chwerthin am y peth. Nage cwyno o'n i. O'n i'n gallu taro'r nodyn iawn yn Gymraeg.

'Pan ych chi'n mynd at ddoctor sy'n siarad Saesneg, mae tuedd i chi feddwl bod nhw lan fan hyn. Ych chi'n gallu torri'r pellter pan boch chi'n siarad Cymraeg. Ych chi'n dod i'r un lefel. Mae'r awyrgylch yn newid yn llwyr ... Ych chi'n arllwys mas wedyn.'

3.15.2 I berson h n arall sy'n mynd i'r ysbyty ar gyfer llawdriniaeth, mae rôl arwyddocaol gan y *sister* sy'n siarad Cymraeg ar y ward.

'Roedd y *sister* oedd yn fy nerbyn i ar y ward yn siarad Cymraeg. 'Na neis oedd hynny; mae rhywun yn teimlo'n fwy cartrefol. Oedd e'n gwneud i fi deimlo cymaint yn well ... A wedes i wrthi, "Wna i edrych mlaen at eich

gweld chi ar ôl yr *op* fory,” a wedodd hi, “O sori, fyddai i ddim ’ma fory.” A wedodd hi wrtha i wedyn, “Weles i’ch wyneb chi’n cwmpo.”

3.15.3 Mae perthynas yn ystyried y berthynas rhwng ei fam a’r nyrs seiciatryddol oedd yn gweithio yn y gymuned ac yn ymweld â’r teulu i gynnig cefnogaeth oherwydd cyflwr Alzheimer ei dad.

‘Oedd e’n fachan bach ddigon neis, medde mam. Ond wy’n meddwl y bydde hi wedi cael mwy o ddefnydd o’r gwasanaeth tase fe’n gallu siarad Cymraeg.’

Mae’n awgrymu nad oedd gan y gwasanaeth cyfrwng Saesneg y perthnasedd ieithyddol a diwylliannol yr oedd eu hangen ar ei fam i fedru ffurfio perthynas broffesiynol â’r nyrs.

Ond pan gawson nhw gefnogaeth gan weithiwr o fudiad gwirfoddol,

‘Odd hi’n siarad Cymraeg ac yn dod o’r un math o gefndir. Odd mam yn gallu ei thystio hi i fynd â nhad mas. Oedd dad yn dwlu arni hefyd.’

3.15.4 Yn ôl mam i ddyn ifanc ag anabledau, mae gallu derbyn gwasanaethau yn Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth mawr, nid yn unig i’w mab, ond iddi hithau hefyd.

‘Yn Gymraeg, dwi’n gallu siarad am brofiadau a phetha personol iawn. Mae’n haws gwneud hynny yn Gymraeg. Dyw’r llif ddim yna yn Saesneg. Dach chi’n gorfod cyfieithu, yn arbennig pan dach chi’n sôn am rywbeth sydd mor bwysig i ni fel teulu.’

Mae’n awgrymu mai Cymraeg yw iaith ei bywyd emosiynol a’r iaith sydd hawsaf i’w defnyddio i drin bywyd teulu a’r holl faterion sydd wedi eu gwreiddio ynddo.

3.15.5 I un gofalwr, mae'n fater o ddefnyddio amser yn y ffordd orau a mwyaf cynhyrchiol, 'Pan ewch chi weld y doctor, dim ond pum munud sydd gyda chi.' Felly mae'n bwysig, meddai, medru cyfathrebu yn yr iaith sy'n ei gwneud hi'n bosib i chi gyrraedd at graidd y broblem mor fuan a mor effeithiol â phosib.

3.15.6 Mae un rhiant yn disgrifio'r profiad o gael ei thywys gan nyrs ar ôl i'w mab bach derbyn diagnosis o *leukaemia*.

'Mi gliciais i hefo hi yn syth. Mae ei gwreiddiau a'i magwraeth lai na 10 milltir o lle 'magwyd i. Roedd hi felly yn gwybod o ble roeddwn i yn dod, nid yn unig yn ddaearyddol, ond yn ieithyddol a diwylliannol. Fedra i ddim dechra disgrifio pa mor allweddol oedd hi i roi'r hyder imi y bydden i'n gallu gofalu am X. Roeddwn i yn ei thrystio hi yn llwyr ac yn gwybod ei bod hi'n siarad hefo fi mewn ffordd lle roeddwn i'n gwybod ei bod hi yn fy neall i.'

3.15.7 Yr ail berthynas bwysig mae'n ei disgrifio yw'r un gyda nyrs ar y ward yn Ysbyty Alder Hey ble roedd ei mab yn cael ei drin. Oherwydd *steroids*, roedd e'n dechrau ymddwyn mewn ffordd roedd hi heb arfer ag e. Ac ynghanol ceisio penderfynu sut orau i ddelio â hynny, mae'n ei ffeindio'i hun yn cael sgwrs â nyrs arall sy'n siarad Cymraeg.

'R an wrth reswm yn Lerpwl fyddai rhywun ddim yn disgwyl dod ar draws cymaint â hynny o staff sy'n siarad Cymraeg. Ond ar y nos Sadwrn yma, mi ddaeth un o'r staff nos i mewn drwy'r cyrtans oedd rownd y gwely a dweud yn Gymraeg, "Maen nhw 'di deud wrtha i bo' chi'n Gymraeg ac mai fi bia chi am heno!"

"Aah, sbïa arno fo," meddai hi, gan edrych ar X ac yn ei weld yn cysgu'n braf a thawel. "O, peidiwch â sôn," medda fi, "Mi ges i andros o drafferth efo fo gyna – dwi di gorfod sefyll i fyny drosaf fy hun a dweud y gwir, a

dweud wrtho fo sut ma'i fod." "Wel. Da iawn chi," meddai hi, "Ma na ddigon o blant yn mynd o fa'ma yn hen gnafon bach annifyr am bod nhw 'di cael gwneud fel lician nhw, jyst am bod nhw'n sâl. Sticia di iddi a mi fydd o'n iawn i ti."

Ac yna, mae'n dweud,

'Er y gwahaniaeth oedran, cenhedlaeth, profiadau bywyd a chefnidir proffesiynol, mi oedd 'na ryw *rapport* hefo'r nyrs yma o'r eiliadau cyntaf oedd yn gwneud i mi deimlo ein bod yn adnabod ein gilydd erioed. Roedd o fel bod ein perthynas wedi datblygu mewn munudau, be gymerodd wythnosau, fisoedd, os o gwbl, gydag eraill ar y ward. Dwi ddim yn honni am eiliad bod pawb sy'n siarad Cymraeg yn clicio efo'i gilydd ac mai dyna'r unig ffactor sy'n bwysig wrth ddelio efo pobl. Dwi chwaith ddim yn dweud fod y gwrthwyneb yn wir, ac nad ydio'n bosib cael *rapport* hefo pobol os nad ydach chi'n siarad yr un iaith â nhw. Be dwi yn ddweud ydi mod i'n argyhoeddedig yn y sefyllfa yma fod y ffaith fod yn nyrs yn siarad Cymraeg yn hollol allweddol.

'Roedd hi'n bont i mi rhwng fy mhlentyn gwael a'r tîm meddygol oedd am ei drin. Mi roddodd hi'r hyder i mi allu holi'r ymgynghorydd wedyn sut oedd y ffordd orau i drin X. Dydw i ddim yn meddwl byswn i wedi cael y sgwrs yma efo fo oni bai mod i wedi cael cadarnhad ganddi hi mod i ar y trac iawn.'

3.15.8 Os yw cyfathrebu yn haws, a'r broses o ffurfio perthynas broffesiynol yn cael ei hwyluso'n fwy mewn un iaith na'r llall, fel yn achos y rhiant yma, yna mae effaith gwasanaeth sy'n briodol o safbwynt iaith yn debygol o fod yn fwy fyth i'r sawl sy'n ei chael hi'n anos cyfathrebu yn ei ail iaith. Dyma'r pwynt a wneir gan frawd i berson ag anableddau dysgu sydd bellach wedi marw; prin oedd y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg iddo fe.

‘Bysen i’n hunan yn moyn gwasanaeth yn Gymraeg. Dwi’n teimlo’n wahanol – yn deall beth sy’n mynd mlaen. Yn Saesneg, dwi’n meddwl yn Gymraeg a chyfieithu. Dyw e ddim yr un peth. I X (ei frawd), oedd hi’n fwy anodd fyth. Oedd hi’n *tough* iddo fe.’

3.16 Oedi wrth ddarparu gwasanaeth

3.16.1 Mae nifer o ymatebwyr yn sôn am y profiad o gael gwybod naill ai nad oes gwasanaethau ar gael iddyn nhw yn Gymraeg, neu ei bod hi’n debygol y bydd rhaid aros am y gwasanaeth, fel y gwelwyd yn 3.14.1.4 uchod, er enghraifft. Disgrifir hynny yn glir iawn gan berthynas i berson h n â dementia, sy’n byw yn Sir Benfro. Â’i hiechyd yn dirywio, mae ei theulu’n ei chyfeirio am asesiad gan therapydd galwedigaethol. Wrth gyfeirio, maen nhw’n dweud bod angen asesiad yn Gymraeg. Yna, maen nhw’n wynebu cyfnod o aros, a

‘Wedi nifer o alwadau ffôn, cynigiwyd cyfieithydd ond doeddwn i ddim yn hapus gyda hynny ... Buom yn aros am fisoedd lawer – yn ffonio a holi a’r ymateb oedd nad oedd neb ar gael ... Cynigiwyd cyfieithydd eto – ac yn y pen draw, weithwraig gymdeithasol Gymraeg ei hiaith o Geredigion ... Doedd yna ddim un therapydd galwedigaethol Cymraeg ei iaith ar gael yn siroedd Penfro ac Aberteifi gyfan. Yn y cyfamser, ychydig ddyddiau cyn ymweliad y weithwraig gymdeithasol, fe syrthiodd mam a thorri asgwrn, toriad poenus tu hwnt a olygodd ei bod yn gorfod treulio misoedd yn Ysbyty Hwlfordd ... Pe baem wedi gallu cael y gwasanaeth a fynnem heb aros ac aros, efallai na fyddai Mam wedi syrthio, gan nad oedd ganddi ffrâm gerdded ar y pryd.’

3.16.2 Gadawyd y teulu â’r argraff fod y cais am asesiad yn Gymraeg yn cael ei ystyried

‘... yn od, yn rhyfedd, yn afresymol. Neu dyna’r teimlad yr oeddech yn ei gael. Ac fe ddiodefodd mam galedi mawr yn ei sgîl. Pe bai’r gwasanaethau yn cymryd y cais o ddifri, fe fyddent wedi hen ddarganfod ffordd o ddatrys y broblem.’

3.17 Gwasanaeth sy’n dibynnu ar ddefnyddiwr neu ofalwr hyderus

3.17.1 Mae sawl defnyddiwr a gofalwr ymhob un o’r meysydd blaenoriaeth yn dweud mai ar sail galw, nid angen, y caiff gwasanaethau cyfrwng Cymraeg eu darparu. Yn ôl un fam,

‘Fe ofynnais i am wasanaeth yn Gymraeg. Dyw hynny ddim yn gyffredin. Dyw Cymry Cymraeg, er yn dymuno, ddim yn gwneud pethau ddigon clir ar y dechrau.’

Mae’n ei disgrifio’i hun fel siaradwraig Gymraeg hyderus, ac nad yw o angenrheidrwydd yn cynrychioli siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol .

Yn siarad am ei merch fach, mae’n dweud,

‘Dyw pobl fregus fel X ddim yn gallu dweud. Felly, maen nhw’n gorfod dibynnu ar deulu *assertive*. A dyw pawb ddim yn mynd i gwyno ... Y broblem yw bod siaradwyr Cymraeg ddim yn gofyn. Ry’n ni’n trin y gwasanaeth iechyd yn wylaidd, bod yn ddiolchgar am bopeth ry’n ni’n gael.’

3.17.2 Mae nifer yn esbonio sut y bu’n rhaid iddyn nhw ofyn, a gofyn drachefn yn aml iawn, am wasanaethau yn Gymraeg. Mae un ofalwraig yn sôn sut y bu’n rhaid iddi gysylltu â’r adran gwasanaethau cymdeithasol yn lleol i ofyn iddyn nhw asesu ei pherthnasau oedrannus. Gofynnodd am asesiad yn Gymraeg. Ond, person di-Gymraeg a ddaeth i wneud yr asesiad. Felly, cysylltodd â’r adran eto a’r tro hwnnw, gwnaed yr asesiad yn Gymraeg.

3.17.3 Mae un ymatebydd yn pwysu a mesur ei phrofiad fel rhiant i blentyn ag anableddau.

‘Mae pob dim yn rhwystr i blant ag anableddau, nid jyst y Gymraeg. Mae cynnal stêm yn anodd ac mae’ch egni chi’n mynd weithiau.’

Diffyg gofal ysbaid i’w mab yn Gymraeg yw’r broblem ddiweddaraf i’r rhiant yma. Ond mae bellach yn gobeithio bod teulu addas ar gael.

3.17.4 Mae gofalwraig arall yn adrodd sut y bu’n rhaid iddi bwysleisio’r angen am wasanaeth yn Gymraeg wrth gysylltu â darparwr gwasanaeth mawr trydydd sector ar ran ei mam,

‘O’n i’n gorfod gofyn am rywun yn Gymraeg. Doedd ’da nhw ddim gwirfoddolwyr lleol (yng Ngheredigion) oedd yn siarad Cymraeg. Buodd rhaid i fi bwysu a buodd rhaid i ni aros am siaradwr Cymraeg. Ond oedd e’n gwneud cymaint o wahaniaeth.’

3.17.5 Mae ambell berson yn awgrymu mai peth anodd yw creu’r lefel yma o alw unwaith maen nhw wedi dechrau derbyn gwasanaeth a dod i adnabod darparwyr unigol,

‘Dy’ch chi ddim eisie cwyno ac ypsetio pobol achos y’n ni’n dal yn y system. Mae’r unigolion yn grêt. Ond dyw’r system ei hun ddim yn darparu na chaniatáu lle i’r Gymraeg.’

Ac mae perthynas arall yn dweud,

‘Beth sy’n ddiflas yw’n bod ni’n teimlo’n ddiolchgar am gael rhywun sy’n siarad Cymraeg. Fel tasen ni’n cael rhyw ffafr fawr.’

3.17.6 Mae rhiant i berson sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl yn disgrifio'r anawsterau mawr pan oedd hi'n derbyn triniaeth ddwys mewn uned seiciatryddol. Doedd dim gwasanaethau ar gael iddyn nhw fel teulu yn Gymraeg ac oherwydd hynny,

'Oedd e'n croesi'n meddwl i a ddylwn i dynnu sylw a trio gwneud rhywbeth am y Gymraeg. Ond o'n ni'n defnyddio'n holl nerth i gadw pethe i fynd heb fynd ar ôl rhywbeth gwleidyddol ... Roedd yn gyfnod dirdynnol iawn ac a bod yn berffaith onest, roedd poeni am hawliau yn mynd naill ochr. Ond roedd hi'n anodd achos bod ni'n trafod yn ein hail iaith. Falle bydde X wedi mynegi mwy yn Gymraeg a falle byddai hi wedi bod yn haws cael diagnosis ynghynt.'

I'r rhiant yma, byddai gofyn am wasanaeth Cymraeg dan yr amgylchiadau yn teimlo fel gweithred wleidyddol. Ac ar y pryd, roedd hynny'n teimlo'n annheilwng ac yn amhriodol.

3.17.7 I riant arall, mae 'na gwestiynau pragmatig yn ogystal â'r cyndynrwydd cyffredinol i gwyno,

'Dy'n ni ddim yn cwyno – y'n ni'n cymryd y plant mas o'r ysgol, eisie dod at wreiddyn unrhyw broblem. Ych chithau'n cymryd amser bant o'r gwaith ac y'n ni jyst yn moyn cadw'r apwyntiad a gwneud y gorau ohoni.'

3.17.8 Mae'n bosib hefyd fod y sefyllfa y mae defnyddwyr a gofalmwyr ynnddi yn eu hamddifadu o b er. Mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd, os nad yn amhosib, iddyn nhw fynnu neu gwyno. Er enghraifft,

'Fel arfer, dwi'n mynnu fy hawl. Ond yn y sefyllfa 'ma, oedd hi'n sefyllfa newydd i fi. O'n i newydd ffeindio mas bod mam fy mhientyn i â

phroblemau dirfawr ... O'n i wedi colli pob grym fel defnyddiwr. Do'n i ddim yn mynd i fynnu fy hawliau. Oedd pobl yn dod mewn i mywyd i. Oedd 'da fi ddim p er. Mae e'n ddigon anodd *anyway* gofyn am ffurflen yn Gymraeg neu rywbeth. Ond yn y sefyllfa 'ma oedd e'n gwbl amhosib.'

3.17.9 I nifer sydd heb eu llais eu hun, mae rhieni a gofalwyr yn cadw llygad barcud ac yn llawn gofal. Caiff hynny ei fynegi gan ferch i berson sy'n derbyn gofal preswyl,

'Mae hi'n lwcus bod ni'n gallu siarad drosti. Mae rhai 'na heb deulu a does 'da nhw neb i esbonio pethe ... Wy'n mynd bob dydd i checo bod hi'n cael popeth mae hi fod i gael. Wy'n trio gwneud jig-sos bach syml 'da hi a gofyn pethe fel, "pa liw yw hwn, mam?" Ond dy'n nhw ddim yn gallu rhoi *stimulation* fel 'na iddi.'

3.17.10 I rai teuluoedd, dim ond am ryw hyd y gellir cynnal yr ewyllys a'r egni sydd eu hangen i alw am wasanaethau yn Gymraeg. Caiff hynny ei egluro gan rieni i ddyn ifanc yn ei ugeiniau sydd ag anabledau dysgu ac yn byw yn Sir Benfro. Maen nhw'n dweud na chawson nhw erioed weithiwr cymdeithasol oedd yn siarad Cymraeg. Mae'r un peth yn wir am wasanaethau eraill hefyd, medden nhw, ag eithrio un ymweliad gan seicolegydd addysg oedd yn medru'r Gymraeg a chysylltiad am gyfnod byr â therapydd iaith a lleferydd Gymraeg ei hiaith.

'Ar adegau, y'n ni wedi bod yn rhwystredig ac yn grac. Ond erbyn hyn, mae'n disgwyliadau ni o'r gwasanaeth gan y cyngor sir mor isel, does dim byd yn ein synnu ni. Dy'n ni ddim yn disgwyl unrhyw wasanaeth Cymraeg gan y cyngor a gweud y gwir.'

3.17.11 I riant arall o'r gogledd - a wnaeth gwyn yn 2004 am na fu modd i'w phlentyn hynaf dderbyn asesiad orthoptig yn Gymraeg – mae'r syniad o gwyno eto yn fwy nag y mae'n barod i'w ystyried a hithau'n darganfod nad oes dim wedi

newid a'i bod yn wynebu'r un problemau'n union gyda'i phlentyn iau. Mae'n dweud yn glir, 'Dwi'm isio mynd drwy hynna eto.'

3.17.12 Mae'n annhebygol y gwnaiff newid arwyddocaol ddigwydd o safbwynt gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, cyhyd ag y mae galw yn hytrach nag angen sy'n sylfaen i'r ddarpariaeth. Mae disgwyliadau isel y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg, siaradwyr iaith leiafrifol sydd wedi ei hymylu yn draddodiadol, ynghyd ag amharodrwydd neu anallu unigolion sy'n aml yn ddi-rym i gwyno am wasanaethau iechyd a gofal, yn dod ynghyd i'w gwneud hi'n anodd dros ben herio'n effeithiol y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig.

3.18 Negeseuon i Lywodraeth Cynulliad Cymru

3.18.1 Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried y newidiadau y bydden nhw'n dymuno eu gweld yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyfrwng Cymraeg eu datblygu a'u darparu. Gwnaed nifer o awgrymiadau sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu, rhoi gwerth ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog ar lefel y sefydliad a'r unigolyn, ac adeiladu'n rhan o systemau gweinyddol a phroffesiynol y dulliau i adnabod anghenion iaith a gwneud defnydd deallus o'r data hynny.

3.18.2 Yn fwy penodol, soniodd ymatebwyr am yr angen i recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i'r maes iechyd a gofal. Er enghraifft,

'Wy'n meddwl bod eisie mwy o arian i dynnu mwy o seicolegwyr a gweithwyr cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg. Mae eisie mwy o *incentives* ariannol fel rheiny sy 'na i ddenu pobl i ddysgu *maths* a gwyddoniaeth, er enghraifft. A'r peth arall sy eisie yw mwy o statws i ofalwyr (sy'n dod i'r cartref), y bobl sy'n gwneud y gwaith caib a rhaw.'

3.18.3 Mae rhieni'n sôn am brinder therapyddion iaith a lleferydd sy'n medru'r Gymraeg ac mae un rhiant yn mynegi dymuniad nifer trwy ddweud,

‘Dylai Llywodraeth y Cynulliad roi arian i greu mwy o gyfleoedd i hyfforddi therapyddion iaith a lleferydd a mwy o arian i greu swyddi iddyn nhw.’

3.18.4 Mae ymatebwyr eraill yn cyfeirio at bwysigrwydd hel gwybodaeth adeg y cyfeiriad cyntaf a defnyddio hynny i siapio ymyriadau priodol. Maen nhw'n dadlau y byddai hynny'n help i wneud gwell defnydd o adnoddau; i wella'r gwasanaeth i'r defnyddiwr; i gynyddu lefel bodlonrwydd â'r gwasanaeth, a lleihau'r posibilrwydd o wneud asesiadau anghywir. Mae rhieni'n awgrymu y dylai plant bach uniaith Gymraeg dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg, heb i'r rhiant orfod ofyn amdano.

3.18.5 Mae ymatebwyr eraill yn cyfeirio at bwysigrwydd cynnal archwiliad o lefel sgiliau iaith yn y gweithle a chynnig yr hyfforddiant priodol yn sgil hynny i gynyddu sgiliau a hyder. Awgrymwyd mai'r hyn sydd ei angen ar nifer o weithwyr yw proses sy'n cydnabod a rhoi gwerth ar y gwaddod o sgiliau sydd ganddyn nhw yn Gymraeg, ynghyd â chefnogaeth i ddefnyddio'r iaith. Mae nifer yn awgrymu bod ychydig o Gymraeg yn mynd ymhell.

3.18.6 Cyfeiriwyd hefyd at ymwybyddiaeth iaith, ac, yn ôl un ymatebydd, gall hynny fod yn help i weithwyr allweddol ddeall

‘... sut mae pobl yn defnyddio iaith. Y peth hawdd i asiantaethau nawr yw bod yn *self-defensive* ac anghofio popeth amdano fe.’

3.18.7 Mae sawl un yn cyfeirio at y ffordd y gall gwisgo'r bathodyn iaith Gwaith roi ciw ymarferol, pwysig. Mae hynny'n ei gwneud hi'n bosib i siaradwyr Cymraeg adnabod darparwyr Cymraeg, heb golli cyfleoedd a chuddio adnoddau.

3.18.8 Yn olaf, soniodd gofalwr pa mor werthfawr iddi hi, pan oedd hi'n chwilio am gartref gofal addas i'w mam, fyddai cael gwybodaeth gan ddarparwyr am nifer y staff sy'n medru'r Gymraeg yn y cartref.

4. Y Casgliadau

4.1 Drwy'r ffocws ar brofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y pedwar maes blaenoriaeth, mae'r ymchwil wedi cadarnhau'r cyswllt rhwng iaith a gofal. Mae'n cynnwys enghreifftiau sy'n awgrymu bod modd cyfaddawdu ansawdd y gofal i ddefnyddwyr bregus wrth fethu â chyfathrebu yn eu hiaith gyntaf. Gwelir hynny yn yr enghreifftiau sy'n trafod gofal preswyl a gofal yn y cartref i bobl h n. Sonnir hefyd am swyddogaeth allweddol iaith wrth asesu a llunio diagnosis, a gwelir fod y ddibyniaeth ar gyfieithu, gan ddefnyddio aelodau'r teulu i rannu gwybodaeth rhwng defnyddiwr a gweithiwr, yn gyforiog o broblemau a all effeithio ar natur yr asesiad. I ddefnyddwyr a gofalwyr, gwelir fod y gallu i gyfathrebu yn eu dewis iaith yn cael effaith ar y ffordd y ffurfir y berthynas glinigol a therapiwtig. Mae'n bosib bod hynny yn arbennig o arwyddocaol wrth ddarparu gwasanaethau seiciatryddol a therapiwtig.

4.2 Mae ymatebwyr yn awgrymu mai ar hap a damwain y ceir gwasanaeth yn Gymraeg mewn sawl ardal; anaml y mae'n digwydd oherwydd cynllunio clir. Nid oes gan staff, ar nifer o lefelau, yr hyder i ddefnyddio eu sgiliau yn y Gymraeg mewn cyd-destun proffesiynol; mae'n bosib nad yw'r asiantaethau sy'n eu cyflogi yn cydnabod a rhoi gwerth ar y sgiliau hynny ac o'r herwydd mae'r sgiliau yn aros ynghudd, heb eu rhyddhau.

4.3 Mae'n ymddangos bod diwylliant canolog y sector iechyd a gofal yng Nghymru yn gosod disgwyliad ar y defnyddiwr neu'r gofalwr i adnabod yr angen a chreu'r galw am wasanaethau Cymraeg, nid ar y sail fod gan y darparwyr ddyletswydd i gynnig a darparu. I nifer o unigolion bregus a di-rym yn y grwpiau blaenoriaeth sydd dan sylw yn yr ymchwil, mae'r gallu i fynegi'r angen a chreu'r galw y tu hwnt i'w cyrraedd. Yn aml, maen nhw'n dibynnu ar ofalwyr a theulu i wneud hynny ar eu rhan. Ond nid yw'r gefnogaeth honno gan bawb. Felly, mae angen i'r defnyddwyr mwyaf bregus ac ynysig hynny gael mynediad at wasanaethau a systemau cynnal sy'n ddigon cydnerth a dibynadwy i adnabod yr

anghenion iaith sydd ganddyn nhw ac ymateb yn addas. Mae parch at yr unigolyn yn mynnu hynny.

4.4. Mae shift radical o'r fath yn gofyn am newidiadau systematig mewn agweddau, gweithdrefnau ac arferion gwaith; gall hynny gynnwys yr elfennau canlynol:

i) Cofnodir defnydd a dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth yn y pedwar maes blaenoriaeth adeg y cyfeiriad cyntaf; defnyddir y wybodaeth honno i lywio ymyriadau priodol.

ii) Mae'r wybodaeth honno am iaith yn cyd-fynd â'r defnyddiwr wrth iddo symud drwy'r system ac yn cael ei fflagio fyny adeg pob cyfeiriad newydd.

iii) Bydd y data a gesglir adeg y cyfeiriad yn cyfrannu at y broses o sefydlu'r angen sydd heb ei ddiwallu (*unmet need*) yng nghyswllt darpariaeth iaith addas. Defnyddir y data hynny gan asiantaethau wrth ddatblygu eu strategaethau iaith Gymraeg yn ogystal â'u strategaethau i ddatblygu'r gweithlu a'u strategaethau hyfforddi. Gwneir hynny er mwyn datblygu systemau cynnal a chefnogi sy'n rhoi cyfle i staff ddatblygu a chryfhau eu sgiliau iaith ac felly i ymestyn ystod y gwasanaethau sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg.

iv) Mae angen prosesau cyson i fonitro a sicrhau ansawdd, yn fewnol a thrwy'r mecanweithiau ar gyfer archwilio ac arolygu allanol, i sicrhau bod newidiadau go iawn yn parhau i ddigwydd yn y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

v) Gwelir fod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn floc adeiladu sylfaenol wrth ddatblygu a chynnal arferion gwaith cadarn a sensitif.

Atodiad 1: Copïau enghreifftiol o'r deunydd cyhoeddusrwydd

1a. Datganiad i'r Wasg

DATGANIAD I'R WASG

Dyddiad: 17 Ionawr 2011

Profiad Siaradwyr Cymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Ymchwil Pwysig

Mae Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Gofal Cymru yn awyddus i glywed gan siaradwyr Cymraeg am eu profiad wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg. Ac maen nhw wedi comisiynu tîm o ymchwilwyr o'r Ganolfan Cynllunio Iaith i wneud y gwaith.

“Bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil pwysig hwn yn cael eu defnyddio i nodi blaenoriaethau,” meddai Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. “Byddan nhw'n gyrru gwelliannau i'r gwasanaethau erbyn diwedd y flwyddyn eleni.”

Mae ymchwilwyr o'r Ganolfan yn awyddus i siarad â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gofaldwyr a ffeindio sut brofiad gawson nhw. A oedd hi'n hawdd derbyn gwasanaeth yn Gymraeg neu a oedd rhwystrau? Pa effaith gafodd hynny arnyn nhw? A oedden nhw'n hapus â'r gwasanaeth, neu, a oes ganddyn nhw negeseuon am y ffordd y gellid gwella pethe?

“I nifer o bobl megis plant, pobl h n, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl ac eraill, mae cael gwasanaethau yn y Gymraeg yn fater o *angen* yn hytrach na *dewis*,” meddai'r Dirprwy Weinidog. “Yn aml iawn, dim ond trwy gyfrwng eu hiaith gyntaf y gallan nhw gael eu trin yn effeithiol.”

A dyna pam fod yr ymchwilwyr yn awyddus i glywed am brofiadau sy'n ymwneud â phlant (yn cynnwys therapi iaith a lleferydd), pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl (yn cynnwys dementia), a phobl ag anableddau dysgu.

“Rydyn ni'n awyddus iawn i ddefnyddwyr neu ofalwyr yn y meysydd hynny gysylltu â ni,” meddai Elaine Davies, sy'n arwain y tîm ymchwil. “Bydd cyfle i bobl gymryd rhan yn yr ymchwil trwy gyfweiliad wyneb yn wyneb neu gyfweiliad dros y ffôn, ac mae croeso iddyn nhw hefyd gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig – beth bynnag sydd fwyaf hwylus iddyn nhw. Rydyn ni'n gobeithio'n fawr y cawn ni ymateb gan bobl ledled Cymru. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn hollol gyfrinachol.”

Mae hwn yn gyfle pwysig i ddylanwadu ar bolisi a chryfhau'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ym maes iechyd a gofal. “Rwy'n croesawu'r gwaith ymchwil yma ac rwy'n annog Cymry Cymraeg i gymryd rhan,” meddai Gwenda Thomas. “Mae'n bwysig iawn ein bod ni'n gwrando ar lais defnyddwyr y gwasanaethau iechyd a gofal a deall eu gofynion am wasanaethau Cymraeg.”

Nodyn i'r golygydd:

Am wybodaeth bellach, cysylltwch naill ai ag Elaine Davies ar 01239 711668 (elaine.davies@iaith.eu) neu ag Elin Mair ar 01239 711668 (elin.mair@iaith.eu).

Amserlen yr ymchwil:

Gwahodd pobl i gymryd rhan yn yr ymchwil: Ionawr 17 – Chwefror 4

Cynnal y cyfweiliadau ymchwil: Chwefror 4 – Mawrth 11.

Diwedd y Datganiad i'r Wasg

Atodiad 1b. Llythyr at y wasg leol

Annwyl Syr / Madam,

A oes gan eich darllenwyr Cymraeg eu hiaith brofiad o'r gwasanaeth iechyd neu'r gwasanaeth gofal cymdeithasol y bydden nhw'n barod i'w rannu, boed hynny'n ganmoliaeth neu'n gwyn?

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i glywed ganddyn nhw ac maen nhw wedi comisiynu tîm o ymchwilyr o'r Ganolfan Cynllunio Iaith i wneud y gwaith.

Yma yn y Ganolfan rydyn ni'n awyddus i siarad â defnyddwyr gwasanaeth neu ofalwyr a all ddweud wrthon ni sut brofiad gawson nhw. A oedd hi'n hawdd derbyn gwasanaeth yn Gymraeg neu a oedd rhwystrau? Pa effaith gafodd hynny arnyn nhw? A oedden nhw'n hapus â'r gwasanaeth, neu, a oes ganddyn nhw negeseuon am y ffordd y gellid gwella pethe?

Rydym yn awyddus iawn i glywed am brofiadau sy'n ymwneud â phlant, pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl (yn cynnwys dementia), ac â phobl ag anableddau dysgu.

I wybod mwy am yr ymchwil a sut i gymryd rhan, mae croeso mawr i ddarllenwyr gysylltu ag Elaine Davies yn y Ganolfan Cynllunio Iaith ar 01239 711668 neu elaine.davies@iaith.eu. Caiff pob cyswllt a chyfraniad eu trin yn hollol gyfrinachol.

Edrychaf ymlaen yn fawr at glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb i gymryd rhan cyn dydd Gwener, Chwefror 4.

Yn gywir,

Elaine Davies,
(ar ran y tîm ymchwil) .

Atodiad 2: Nifer yr ymatebion yn ôl ardal ddaearyddol

Plant	Sir Gâr	1
	Caerdydd	5
	Ceredigion	4
	Conwy	1
	Sir Ddinbych	2
	Gwynedd	3
	Rhondda Cynon Taf	1
		17
Pobl h n	Sir Fôn	2
	Caerdydd	1
	Sir Gâr	1
	Ceredigion	7
	Sir Ddinbych	1
	Castell Nedd Port Talbot	1
	Casnewydd	1
	Powys	1
	15	
Pobl â phroblemau iechyd meddwl (yn cynnwys dementia)	Sir Gâr	2
	Ceredigion	3
	Conwy	2
	Sir Benfro	1
	Bro Morgannwg	1
	Wrecsam	1
	10	
Pobl ag anableddau dysgu	Ceredigion	3
	Sir Ddinbych	1
	Gwynedd	1
	Sir Benfro	1
	Rhondda Cynon Taf	1
	Abertawe	2
	9	
	Cyfanswm	51

Atodiad 3: Llythyr a Ffurflen Ganiatâd i Ymatebwyr

Annwyl

Profiad siaradwyr Cymraeg o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Ysgrifennaf atoch â gwybodaeth am ymchwil sydd newydd ei gomisiynu ar Brofiad Siaradwyr Cymraeg o'r Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Felly, bwriad y llythyr hwn yw rhoi mwy o wybodaeth i chi am yr ymchwil a blas o'r math o gwestiynau a fydd dan sylw ynddo.

Mae hefyd yn cynnwys ffurflen ganiatâd i chi ei llenwi pe byddech yn awyddus i gymryd rhan.

Y Cefndir:

Rydyn ni'n cynnal yr ymchwil ar ran Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Gofal Cymru a'r bwriad yw casglu profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr Cymraeg eu hiaith.

Mae'r ymchwil yn perthyn i waith y Tasglu ar y Gymraeg sy'n cael ei gadeirio gan Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Yn rhan o hynny, ffurfiwyd is-grŵp yn ddiweddar i ddatblygu *Fframwaith Strategol* i hybu defnydd o'r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal. Wrth lunio'r Fframwaith, mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus iawn i gasglu llais a phrofiad defnyddwyr a gofalwyr er mwyn cael darlun mor glir â phosib o'r ddarpariaeth Gymraeg ar hyn o bryd. Mi fyddan nhw'n defnyddio hynny i lywio siâp a chyfeiriad y *Fframwaith Strategol* newydd. Felly, mae'r ymchwil yn gyfle i ddylanwadu ar y gwasanaethau a fydd yn cael eu datblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Yr Ymchwil:

Mae'r ymchwil yn hoelio sylw ar brofiadau sy'n ymwneud â:

- phlant (yn cynnwys gwasanaeth therapi iaith a lleferydd)
- pobl hŷn
- pobl â phroblemau iechyd meddwl (yn cynnwys dementia)
- pobl ag anableddau dysgu.

Mae'r ffurflen a ddaw gyda'r llythyr hwn yn gofyn i chi nodi i ba un o'r grwpiau hynny yr ydych chi'n perthyn, a pha un ai fel defnyddiwr / claf neu fel gofalwr yr ydych chi'n ymateb.

Mae cyfle i gymryd rhan yn yr ymchwil trwy:

- gyfweiliad wyneb yn wyneb
- cyfweiliad dros y ffôn, neu

trwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, naill ai trwy e-bost neu lythyr.

Os cawn ni ddigon o ymatebwyr o'r un ardal, byddai hefyd yn bosib ystyried trefnu grŵp ffocws lle gall pobl rannu profiad â'i gilydd, ar yr amod fod pawb yn hapus gwneud hynny.

Wrth gyflwyno tystiolaeth, byddai croeso i chi ddewis pa bynnag ddull sydd fwyaf cyfforddus i chi. Mae'r ffurflen ar y diwedd yn gofyn i chi nodi sut y byddech chi'n dymuno cyfrannu.

Ar ôl casglu'r holl brofiadau a gwybodaeth ynghyd, bydd gofyn i mi baratoi adroddiad at sylw'r Llywodraeth a'r Cyngor Gofal. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r prif bwyntiau a fydd wedi codi yn ystod yr ymchwil ac yn bwysicach na dim, bydd yn gyfle i gyfeirio at brofiadau, sylwadau ac argymhellion pawb fydd wedi cymryd rhan.

Wedi dweud hynny, rhaid pwysleisio y bydd yr holl wybodaeth y byddwch yn ei rhannu â mi yn cael ei chyflwyno yn ddienw. Rydym yn awyddus iawn i sicrhau cyfrinachedd trwy gydol y broses.

Y Cwestiynau Ymchwil:

Fel y soniwyd, rydym yn awyddus i glywed am eich profiad naill ai fel claf, fel rhywun sy'n derbyn gwasanaeth gofal, neu fel gofalwr. Mae croeso i chi sôn am brofiadau da yn ogystal ag am brofiadau sydd heb fod cystal.

Er enghraifft,

A oedd hi'n hawdd i chi dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg neu a oedd yna rwystrau?

Os oedd rhwystrau, beth yn union oedd yr anawsterau?

Pa effaith gafodd hynny arnoch chi?

Os cawsoch chi brofiad cadarnhaol, beth oedd y cryfderau?

Os nad oeddech chi'n hapus, ym mha ffordd y gellid fod wedi darparu'r gwasanaeth i chi mewn ffordd wahanol o safbwynt iaith? Pa effaith bosib y gallai hynny fod wedi ei gael arnoch?


Ar sail eich profiad fel defnyddiwr neu ofalwr, beth yw'r prif negeseuon y carech eu cyfleu i Lywodraeth y Cynulliad wrth iddyn nhw wella'r ddarpariaeth Gymraeg yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol?

Yn olaf, byddwn yn ddiolchgar iawn pe bai modd i chi ystyried cymryd rhan yn yr ymchwil. Mae e'n cynnig cyfle gwerthfawr i rannu profiad personol a thrwy hynny, i ddylanwadu ar ddarpariaeth Gymraeg yn y maes iechyd a gofal yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Os oes unrhyw gwestiynau'n codi y byddech chi'n hoffi eu trafod cyn dychwelyd y ffurflen, mae croeso mawr i chi gysylltu â mi. Ac os hoffech amlen Rhadbost i dychwelyd y ffurflen ganiatâd ynddi drwy'r post, cofiwch gysylltu.

Gan edrych ymlaen yn fawr at glywed gennych,

Yn gywir,

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Elaine Davies', with a long horizontal flourish extending to the right.

Elaine Davies
Ymchwilydd

Profiad siaradwyr Cymraeg o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

1) Manylion Personol

Enw:

Cyfeiriad

.....

.....

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

2) Grwpiau diddordeb

Os gwelwch yn dda, rhowch dic yn un o'r blychau isod i nodi pa un o'r grwpiau canlynol rydych chi'n ei gynrychioli:

Plant

Pobl h n

Pobl â phroblemau iechyd meddwl (yn cynnwys dementia)

Pobl ag anableddau dysgu

Nodwch hefyd, os gwelwch yn dda, os ydych yn ymateb fel:

Defnyddiwr gwasanaeth / Claf

neu fel

Gofalwr / Teulu

3) Dull Ymateb

Nodwch os gwelwch yn dda sut y byddech chi'n dymuno cymryd rhan yn yr ymchwil trwy roi tic yn y blwch priodol:

Cyfweliad wyneb yn wyneb

Cyfweliad dros y ffôn

Cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Os ydych wedi ticio'r blwch yma, nodwch ai trwy lythyr neu e-bost y byddech chi'n dymuno gwneud:

trwy lythyr

trwy e-bost

Dalier Sylw

Pe bai nifer o unigolion yn ymateb o'r un ardal neu ranbarth, gellid ystyried cynnal grŵp ffocws. Byddai hynny'n rhoi cyfle i gyflwyno tystiolaeth trwy rannu profiad gydag unigolion eraill trwy drafodaeth mewn grŵp.

Byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi nodi a fyddai trefniant o'r fath yn dderbyniol i chi trwy roi tic yn y blwch perthnasol.

Rydw i'n hapus cyflwyno tystiolaeth trwy gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp

Dydw i ddim yn dymuno cyflwyno tystiolaeth trwy gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp.

4) Caniatâd

Rydw i wedi darllen y llythyr ac yn hapus cymryd rhan yn yr ymchwil. Rydw i'n deall ei bod hi'n bosib y bydd fy mhrofiad a'm sylwadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiad at sylw grŵp a ffurfiwyd gan Adran Iechyd Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu *Fframwaith Strategol* ar gyfer y Gymraeg yn y gwasanaethau iechyd a gofal.

Rydw i'n derbyn y bydd y sylwadau hynny yn ddienw ac na chaiff fy nhystiolaeth ei defnyddio at unrhyw berwyl arall.

Llofnod.....

Dyddiad.....

Deddf Diogelu Data 1998

Mae cwmni IAITH cyf. wedi ei gofrestru dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Ni rennir eich manylion personol â thrydydd parti. Cedwir a defnyddir eich manylion personol yn unig er mwyn cysylltu â chi yng nghyswllt y cynllun hwn.

Diolch i chi am lenwi'r ffurflen. A wnewch chi ei dychwelyd yn yr amlen Rhad Bost at Elaine Davies yn IAITH: y ganolfan cynllunio iaith cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda. Diolch o galon.

Atodiad 4: Cwestiynau Ymchwil

Wrth baratoi eich tystiolaeth ar gyfer yr ymchwil, mae croeso i chi rannu profiadau o bob math – rhai da a rhai sydd heb fod cystal

1) Beth oedd y sefyllfa a pha wasanaeth roeddech chi (neu'r person dan sylw) yn ei dderbyn?

2) Beth yw'r profiad gawsoch chi a beth yn union ddigwyddodd o safbwynt defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg?

3) Beth oedd effaith hynny? Er enghraifft, o safbwynt:

yr asesiad
y gwasanaeth
y gofal

4) Sut roeddech chi (neu'r person dan sylw) yn teimlo am hynny?

5) Os nad oeddech chi'n hapus, ym mha ffordd y gellid fod wedi darparu'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol o safbwynt iaith? Pa effaith bosib y gallai hynny fod wedi ei gael arnoch chi (neu'r person dan sylw)?

6) Ar sail eich profiad fel defnyddiwr neu ofalwr, beth yw'r prif negeseuon y carech eu cyfleu i Lywodraeth y Cynulliad wrth iddyn nhw ystyried sut i wella'r ddarpariaeth Gymraeg yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol?

Diolch yn fawr